# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 17 MEDI 2025 am 2:00 y. p. | WEDNESDAY 17 SEPTEMBER 2025 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen,
Alwen Watkin, Sonia Williams ***(Is-Gadeirydd/Vice-Chair***), Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans ***(Cadeirydd/Chair)***, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats*)*, R. Llewelyn Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Kathryn Seeney (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Christina Williams (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2025.

**3** **MONITRO PERFFORMIAD:CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH1 2025/26** (Tudalennau 9 - 26)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**4** **ARGYMHELLION Y GRWP TASG A GORFFEN SGRIWTINI: EIDDO GWAG A DYRANIADAU'R GWASANAETH TAI - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD** (Tudalennau 27 - 40)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**5** **AELODAETH Y PANELAU SGRIWTINI** (Tudalennau 41 - 80)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**6** **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 81 - 88)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 17 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jeff Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Keith Roberts, Ieuan Williams, Arfon Wyn.<br><br>Aelodau Cyfetholedig Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd), Neville Evans (Aelod Portffolio - Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio - Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio - Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Nicola Roberts (Aelod Portffolio - Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Alun Roberts (Aelod Portffolio - Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio - Addysg a'r Gymraeg), Robin Williams (Aelod Portffolio - Cyllid a Thai). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (HP)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (NM)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (AWO)<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CB)<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (CE) (ar gyfer eitemau 3 a 4)<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen (GP) (ar gyfer eitemau 3 a 4)<br>Prif Swyddog Eiddo ac Asedau (MH)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Llio A. Owen, Alwen Watkin, Mr Rhys H. Hughes (Dirprwy Brif Weithredwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Amherthnasol |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod a chadarnhawyd eu bod yn gywir:-

- 10 Ebrill 2025
- 20 Mai 2025
- 21 Mai 2025 (arbennig)

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2024/25

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 2024/25. Mae adroddiad y cerdyn sgorio yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn yr amcanion strategol a nodir yng Nghynllun y Cyngor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, yr adroddiad cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer 2024/25 a nododd bod 82.5% o ddangosyddion yr oedd eu targedau'n cael eu monitro yn ystod y chwarter wedi cyflawni neu ragori ar eu disgwyliadau a'u bod wedi derbyn statws RAG gwyrdd neu felyn, gan adlewyrchu perfformiad cryf ar draws y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones fod y prif feysydd sy'n tanberfformio yn debyg iawn i'r meysydd oedd yn tanberfformio yn Ch3, gan gynnwys nifer y plant sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn (Môn Actif); darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl, ail-osod unedau tai sy'n rhai y mae modd eu gosod, nifer y cytundebau angori blynyddol, cyfraddau ailgylchu gwastraff domestig a cheisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen, er bod yr olaf wedi gwella yn ystod y chwarter olaf. Mae'r Tîm Rheoli'n cadw llygaid ar y meysydd hyn ac mae camau lliniaru ar waith neu ar y gweill. Amlygodd y Cynghorydd Carwyn Jones nifer o ganlyniadau cadarnhaol, fel y nodir yn adran 2.3 yr adroddiad. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys cefnogaeth i fusnesau ddatblygu'r Gymraeg trwy'r rhaglen ARFOR, cynnydd o 50,000 yn nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden Môn Actif i wneud gweithgareddau corfforol, gostyngiad yn nifer y disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol heb fynd ymlaen i waith, addysg neu hyfforddiant (NEET), canran uchel o denantiaid yn fodlon â gwaith trwsio ymatebol, perfformiad cryf wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio mewn da bryd a chyflwr ffyrdd dosbarth A, B ac C.

Wrth drafod yr adroddiad cerdyn sgorio ar gyfer Ch4, cododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- Nododd y pwyllgor fod nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn gwersi nofio wedi bod yn gostwng bob chwarter trwy gydol 2024/25. Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i annog mwy o blant i gymryd rhan yn y rhaglen a chyflawni'r targed. Codwyd cwestiwn cysylltiedig ynglŷn â phrinder hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghanolfan Hamdden Caergybi, yn ogystal â faint o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd.

  Cadarnhaodd y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio - Hamdden, Twristiaeth a Morwrol, fod y gwasanaeth yn adolygu data ynghylch defnydd yn gyson a'u bod yn ceisio deall pam fod y galw wedi gostwng. Pwysleisiodd nad yw'r dangosydd yn adlewyrchu pob gweithgaredd nofio ac mae'n cyfeirio'n benodol at wersi nofio preifat ac nid yw'n cynnwys gwersi a ddarperir drwy'r ysgolion cynradd. Gallai nifer o ffactorau ddylanwadu ar y duedd, gan gynnwys cynnydd mewn costau byw a'r ffaith fod gweithgareddau eraill ar gael yn y canolfannau hamdden. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella hyfforddiant i hyfforddwyr er mwyn gwella ansawdd gwersi a hyrwyddo'r ffaith fod lleoedd ar gael ar y rhaglen. Er hynny, roedd yn cydnabod efallai y byddai'n rhaid adolygu'r targed yn y pendraw, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n realistig a'i fod yn adlewyrchu perfformiad yn gywir.

DRAFT

Mewn perthynas â'r Gymraeg, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd nad oedd ffigyrau ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg ymysg staff y ganolfan hamdden wrth law ganddo. Fodd bynnag, ar sail adborth anffurfiol, roedd yn cydnabod bod diffyg hyder yn ffactor allweddol sy'n atal rhai aelodau o staff rhag defnyddio'r Gymraeg, er bod y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol ganddynt. Mewn ymateb i gwestiwn dilynol ynglŷn â sut y gellir cefnogi staff i ddatblygu eu hyder er mwyn medru sgwrsio yn y Gymraeg, dywedodd y Cynghorydd Neville Evans y byddai'n bosib crybwyll y mater gyda rheolwyr canolfannau hamdden Môn Actif er mwyn ei ystyried ymhellach.

- Cyfeiriwyd at y ffaith fod Cyswllt Môn wedi ymdrin â, a datrys, 40% o ymholiadau yn ystod y cyfnod. Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r 60% oedd yn weddill.

  Esboniodd y Prif Weithredwr bod Cyswllt Môn yn derbyn holl ymholiadau'r Cyngor yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae'r ymholiadau nad ydynt yn cael eu datrys gan Cyswllt Môn, sef y 60% sy'n weddill, yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol oherwydd eu bod angen sylw arbenigol. Mae'r Cyngor yn mynd ati i gynyddu cyfran yr ymholiadau y mae Cyswllt Môn yn ymdrin â nhw'n uniongyrchol yn raddol o chwarter i chwarter.

- Nodwyd bod Dangosydd Tai (03) yn tanberfformio o chwarter i chwarter, ac mae'n cymryd 54 diwrnod ar gyfartaledd i osod unedau, ac eithrio unedau anodd eu gosod, yn erbyn targed o 35 diwrnod. Cyfeiriwyd at gynghorau sydd yn perfformio'n well - Harlow (21 diwrnod), Rotherham (32.7 diwrnod) a North Ayrshire (26.9 diwrnod) - fel meincnodau. Awgrymwyd y gallai'r Aelod Portffolio Tai a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai gysylltu â'r cynghorau hyn er mwyn deall y strategaethau neu ymyraethau oedd yn gyfrifol am eu perfformiad cryfach ac edrych ar wersi posib i'w mabwysiadu. Argymhellwyd camau tebyg ar gyfer dangosyddion Tai (04) a (05) - nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (bach, canolig a mawr). Cynigiwyd y dylid cysylltu â Chyngor Conwy, gan ei fod yn gyngor lleol sy'n perfformio'n well yn y maes hwn, er mwyn darganfod pa arferion y mae'n eu defnyddio a allai helpu'r Cyngor i wneud gwelliannau.

  Nododd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio - Cyllid a Thai, fod dau newid sylweddol wedi effeithio ar berfformiad yn erbyn dangosydd Tai (03), sef cyflwyno Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023, sy'n golygu bod rhaid gwneud gwaith ychwanegol cyn ailosod eiddo, a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sy'n rhoi mwy o amser i denantiaid cyn bod rhaid iddynt roi'r allweddi'n ôl i'r Cyngor. Er bod yr eiddo'n dod yn eiddo gwag ar ddiwedd y denantiaeth, yn aml iawn nid yw'r eiddo ddod yn ôl i ddwylo'r Cyngor ar unwaith. Er enghraifft, nododd yr Aelod Portffolio mai marwolaeth y tenant oedd y rheswm dros ail-osod 35 o'r 253 eiddo oedd wedi cael eu hail-osod yn ystod y flwyddyn (ac roedd angen gwneud gwaith sylweddol ar 14 ohonynt), ac roedd wedi cymryd 87.8 diwrnod ar gyfartaledd i ail-osod yr eiddo hynny. Roedd 15 eiddo arall wedi cael eu gosod am fod y tenant wedi symud i ofal preswyl, a'r cyfartaledd yn yr achos hwnnw oedd 74.6 diwrnod. O beidio â chynnwys yr achosion hyn yn y ffigyrau mae'r cyfartaledd yn gostwng i 44.9 diwrnod ac mae hynny'n agosach at y targed o 35 diwrnod. O ran unedau anodd eu gosod, esboniodd yr Aelod Portffolio fod gosodiadau wedi cael eu gohirio ym mis Tachwedd 2024 oherwydd rhagolygon y byddai'r gyllideb yn gorwario ac mae hynny wedi cyfrannu at yr oedi. Dywedodd hefyd nad yw Safonau Ansawdd Tai Cymru na Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn berthnasol i'r 3 cyngor meincnodi yn Lloegr ac mae'n anodd gwneud cymhariaeth uniongyrchol oherwydd hynny.

- Gofynnodd y pwyllgor pam nad yw 1.9% o blant Blwyddyn 11 sy'n gadael ysgol mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET).

  Esboniwyd wrth y pwyllgor fod y sefyllfa'n llawer gwell o gymharu â 2023, pan oedd 4% yn y categori NEET. O ystyried bod rhwng 700 ac 800 o ddisgyblion ysgol yn y cohort, mae'n ganran cymharol fychan. Mae'r Cyngor wedi adnabod y plant dan sylw ac mae'n eu cynorthwyo i gael mynediad at addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac mae'n gweithio'n agos â'r gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd. Fodd bynnag, mae

DRAFT

amgylchiadau personol a chymdeithasol cymhleth yn golygu nad yw bob plentyn yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddi.

- Nododd y pwyllgor fod gwrychoedd wedi gordyfu ac yn flêr mewn rhai ardaloedd ar yr ynys gan ysgogi cwestiynau ynglŷn â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cynnal a chadw a thorri'r gwrychoedd.

  Cadarnhaodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, fod y rhaglen torri gwrychoedd bellach wedi dechrau. Dywedodd y dylai aelodau hysbysu'r Gwasanaeth Priffyrdd os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â gwrychoedd penodol yn eu wardiau. Os yw'r gwrych ar dir cyhoeddus yna bydd y Cyngor yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol. Os ydyw ar dir preifat, yna bydd y Cyngor yn anfon llythyr at berchennog y tir, gan ofyn iddynt roi sylw i unrhyw ordyfiant a allai greu rhwystr neu broblem ddiogelwch. Ychwanegodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod yr amserlen torri gwrychoedd a glaswellt yn cael ei chynllunio ymlaen llaw a bod y gwaith yn mynd rhagddo trwy gydol misoedd yr haf. Roedd yn annog aelodau i gysylltu â'r gwasanaeth ynglŷn ag unrhyw faterion o'r fath.

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â chynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol, gan fod y ffigwr wedi codi i 21 yn ystod Chwarter 4. Gofynnwyd am sicrwydd fod darpariaeth ddilynol briodol yn cael ei gwneud ar gyfer y plant sy'n cael eu gwahardd a bod ysgolion yn derbyn cefnogaeth arbenigol er mwyn eu cynorthwyo i roi sylw i'r broblem a mynd i'r afael â'r hyn sy'n ei hachosi.

  Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod y cynnydd hwn yn adlewyrchu tuedd genedlaethol ac nad yw'r sefyllfa'n unigryw i Fôn. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau fod plentyn sy'n cael ei wahardd dros dro neu'n barhaol o'r ysgol yn parhau i dderbyn addysg addas. Er y gellir ail-gofrestru disgyblion mewn ysgol, mae rhieni weithiau'n dewis addysgu eu plant yn y cartref. Serch hynny, mae gan bob plentyn yr hawl i dderbyn addysg ar yr ynys ar ôl iddynt gael eu gwahardd.

  Ar gyfer plant sy'n ailymuno â'r gyfundrefn ysgolion, mae cynllun pontio pwrpasol yn cael ei lunio gan yr ysgol a'r Gwasanaeth Cynhwysiad. Mae'r cynlluniau hyn yn amrywio a gallant gynnig mynediad ar unwaith neu fesul cam, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r plentyn ac am faint o amser y buont yn absennol o'r ysgol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio'n agos â'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd er mwyn sicrhau bod y disgyblion sy'n cael eu heffeithio'n dychwelyd i addysg yn gyflym. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiad hefyd yn cynnig cyngor ac arweiniad i ysgolion. Mae cynlluniau ar y gweill i fabwysiadu dull mwy ataliol ac integredig, gan weithio'n rhagweithiol gydag ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr adnoddau presennol.

  Pwysleisiodd yr Arweinydd na ddylid gwahardd yr un disgybl oni bai bod pob cam arall wedi methu. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn awdurdod sy'n wybodus am drawma ac yn un sy'n blaenoriaethu llesiant ac yn ceisio cadw plant mewn addysg yn hytrach na'u cau allan.

- Gofynnwyd pa mor debygol yw'r Cyngor o gyflawni'r targed o ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 70% o wastraff domestig (Newid Hinsawdd DP 02) ac a yw'r targed yn parhau i fod yn realistig.

  Roedd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, yn cydnabod ei bod yn amlwg erbyn Chwarter 3 na fyddai'r targed yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn bresennol. Er hynny, mae perfformiad Ynys Môn mewn perthynas ag ailgylchu'n ddigon parchus o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, ac mae'n gryf o gymharu â chyfraddau yn y DU. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r targed o 70% a bu'n treialu newid ffurf y biniau ailgylchu a threfniadau casglu cardfwrdd mewn dwy gymuned leol. Ystyrir bod addysg yn ffactor allweddol er mwyn gwella ailgylchu, yn enwedig ymysg ymwelwyr sy'n aros mewn llety gwyliau nad ydynt, o bosib, yn gyfarwydd â threfniadau ailgylchu lleol. Cadarnhaodd yr Arweinydd hefyd fod y Cyngor yn awyddus i hyrwyddo gwerth ailgylchu ar bob lefel, gan gynnwys mewn cartrefi, busnesau ac yn y gweithle.



DRAFT

- Holodd y pwyllgor a oedd data hanesyddol ar gael ynglŷn ag allyriadau carbon o adeiladau'r cyngor a gofynnodd am gadarnhad ynglŷn â'r cynnydd mewn allyriadau o fflyd y cyngor.

  Cadarnhaodd y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio - Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd, fod rhywfaint o ddata hanesyddol ar gael, ond nid oedd llawer ohono ac nid yw'n mynd yn ôl mor bell ac y byddai'r Cyngor yn ei ddymuno. Er nad oedd y data wrth law ganddi, dywedodd y gallai'r Rheolwr Newid Hinsawdd gylchredeg y wybodaeth berthnasol. Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod staff sy'n defnyddio fflyd y cyngor yn teithio mwy o filltiroedd ers cyfnod y pandemig. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ceisio cael gafael ar ddata i ddangos fod canran y teithiau sy'n cael eu gwneud mewn cerbydau trydan bellach yn cynyddu. Er bod yr allyriadau cyffredinol wedi cynyddu, mae canran y milltiroedd gwyrdd wedi cynyddu hefyd.

  Mewn ymateb i gwestiwn pellach am allyriadau carbon y Cyngor, dywedodd y Prif Weithredwr fod dadansoddiad diwedd cyfnod drafft wedi'i baratoi er mwyn adolygu cynnydd yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn y "Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025." Bydd y dadansoddiad hwn yn sylfaen ar gyfer datblygu cyfnod nesaf y cynllun, sef ar gyfer y cyfnod rhwng 2026 a 2030. Awgrymodd y dylid cyflwyno'r adroddiad adolygu i'r Pwyllgor Sgriwtini ei ystyried yn yr hydref.

- Nodwyd bod perfformiad mewn perthynas â chanran yr ymholiadau diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol wedi dirywio yn ystod Chwarter 4. Gofynnwyd am gadarnhad o'r rhesymau dros y tanberfformiad.

  Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod cynnydd sylweddol mewn ymholiadau yn ystod ail hanner y flwyddyn wedi effeithio ar berfformiad. Er hynny, er na chyflawnwyd y targed, roedd nifer o'r ymholiadau hwyr wedi cael eu cwblhau ychydig ddyddiau yn unig ar ôl y terfyn amser. Oherwydd cymhlethdod rhai achosion, pwysleisiodd y Pennaeth Gwasanaeth bod sicrhau ymateb trylwyr a chywir yn bwysig a gall hynny gymryd amser. Roedd yn teimlo ei bod yn rhesymol i'r gwasanaeth gymryd yr amser angenrheidiol i ymdrin â phob cais yn gywir, yn hytrach na brysio er mwyn ymateb yn unol â'r amserlen.

Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr, croesawodd y pwyllgor yr adroddiad fel adlewyrchiad o berfformiad cryf a chyson trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, cyfeiriodd y Cynghorydd Ieuan Williams at welliant parhaus. Awgrymodd y dylai'r Cyngor ystyried rhoi system ffurfiol ar waith i feithrin diwylliant o welliant parhaus er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r meysydd sy'n tanberfformio'n gyson. Nododd fod y Cyngor wedi buddsoddi mewn ysgolion yn y gorffennol fel canolfannau dysgu yn seiliedig ar egwyddorion gwelliant parhaus mewn addysg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn mesur perfformiad yn effeithiol a'i fod yn hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus, er nad oes ganddo'r system ffurfiol a gynigiwyd gan y cynghorydd. O ystyried y pwysau ariannol presennol, roedd o'r farn bod y dulliau presennol yn gadarn ac yn addas i bwrpas. Serch hynny, cytunodd i edrych ar y mater gyda swyddogion er mwyn penderfynu a fyddai unrhyw welliannau'n bosib, naill ai trwy gyflwyno system newydd, ac oblygiadau hynny, neu dreialu gwahanol ddulliau mewn meysydd penodol er mwyn gweld a fyddent yn gwneud gwahaniaeth. Gorffennodd trwy bwysleisio mai diwylliant sefydliadol, yn ei farn ef, sydd yn gyrru perfformiad mewn gwirionedd, yn hytrach na systemau.

**Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer 2024/25 ac yn dilyn trafodaeth lawn, penderfynwyd -**

- **Nodi adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2024/25, yn cynnwys y meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol. Roedd y meysydd hyn yn ymwneud ag Addysg (Môn Actif), Tai (darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**

**bach, canolig a mawr a Thai Gwag), Economi (Angorfeydd), Newid Hinsawdd (Ailgylchu Gwastraff Domestig) ac Iechyd Cyffredinol y Cyngor (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth).**

- **Argymell adroddiad y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru a gynhwysir ynddo i'r Pwyllgor Gwaith, a**
- **Gofyn i'r Aelod Portffolio - Cyllid a Thai a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai gysylltu â chynghorau Harlow, Rotherham a North Ayrshire er mwyn edrych ar sut maent yn mynd ati i ail-osod tai gwag ac archwilio gwersi y gellir eu mabwysiadu.**

**Gweithred ychwanegol: bod y dadansoddiad diwedd cyfnod o gynnydd yn erbyn yr amcanion a nodir yn y "Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025" yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ei ystyried yn yr hydref.**

## 4 DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2025/26

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2025/26.

Cyflwynwyd y ddogfen gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio - Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, ac roedd yn amlinellu'r gwaith sydd ar y gweill ar gyfer 2025/26 a'r gweithredoedd fydd yn hyrwyddo cynnydd er mwyn cyflawni'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Cynlluniwyd y gweithredoedd lefel uchel hyn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau o dan bob un o amcanion strategol Cynllun y Cyngor erbyn 2028. Y bwriad yw bod y gweithredoedd yn fesuradwy a'u bod yn cynnwys targedau a cherrig milltir eglur lle bynnag y bo hynny'n bosib, gan olygu bod modd iddynt gael eu monitro'n effeithiol trwy gydol y flwyddyn. Bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n chwarterol gan y Bwrdd Rhaglen Gwella a Moderneiddio a chaiff canlyniadau'r broses hon eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad a Llesiant.

Yn ystod y drafodaeth ar y Ddogfen Gyflawni, gofynnodd y pwyllgor nifer o gwestiynau ynglŷn â chynnydd y Cyngor mewn perthynas â nifer ddyheadau a gweithredoedd arfaethedig. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr mai pwrpas cyflwyno'r ddogfen i'r cyfarfod heddiw oedd penderfynu a oedd y pwyllgor yn fodlon â bwriadau'r Cyngor, fel yr oeddent wedi'u hamlinellu yn y ddogfen ddrafft, cyn cyflwyno'r ddogfen i'r Pwyllgor Gwaith i'w chymeradwyo - nid asesu cynnydd hyd yma. Dywedodd y dylid canolbwyntio ar p'un a yw'r canlyniadau a nodwyd yn ddigon eglur a chadarn, neu a yw'r pwyllgor yn ystyried bod angen ychwanegu elfennau ychwanegol. Ar ôl ei chyhoeddi, bydd y ddogfen yn sail ar gyfer gwaith archwilio a chraffu mwy manwl.

Serch hynny, cyflwynwyd diweddariad i'r pwyllgor ar nifer o gynlluniau, gan gynnwys cyflwyno'r gronfa ddata Cysylltu Gofal i gymryd lle'r system WCCIS, y datblygiad Gofal Ychwanegol newydd yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy, mesurau rheoli llifogydd a pharatoadau er mwyn cefnogi Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn yn 2026 - yn enwedig cystadleuwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Er ei fod yn croesawu'r ddogfen, mynegodd y Cynghorydd Ieuan Williams bryder nad oedd y ddogfen yn nodi'n ddigon eglur sut fyddai'r gweithredoedd arfaethedig yn cael eu cyflawni. Gofynnodd a oedd fframwaith monitro perfformiad cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd, ac awgrymodd efallai nad yw cyfarfodydd chwarterol y byrddau rhaglen yn ddigonol i gynnal trosolwg o rychwant y gweithredoedd sy'n cael eu hamlinellu. Gofynnodd am sicrwydd fod bob gweithred yn weithredoedd SMART - penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac wedi'u cyfyngu o ran amser - a bod rhywun wedi gwirio eu bod yn rhesymol. Tynnodd sylw hefyd at nifer o enghreifftiau lle'r oedd yn credu bod angen i'r ddogfen fod yn fwy eglur ynglŷn â gweithredu a monitro.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai pwrpas y Ddogfen Gyflawni yw rhannu Cynllun y Cyngor, sy'n gynllun pum mlynedd, yn rhannau blynyddol, hygyrch. Mae'r ddogfen yn amlinellu



DRAFT

blaenoriaethau blynyddol y Cyngor ar gyfer y cyhoedd, staff a rhanddeiliaid, er mwyn cefnogi'r amcanion tymor hwy yng Nghynllun y Cyngor. Dywedodd fod ganddo hyder fod strwythurau a gallu rheoli perfformiad y Cyngor yn gadarn, safbwynt a gefnogir gan reoleiddwyr, ac mae trefniadau chwarterol ar gyfer monitro'r cerdyn sgorio yn dangos hynny hefyd. Dyluniwyd y system hon i hyrwyddo cynnydd er mwyn cyflawni nodau Cynllun y Cyngor ac mae manylion gweithredol yn cael eu rheoli gan swyddogion, gan sicrhau atebolrwydd a bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno i uwch reolwyr. Roedd yn gobeithio bod y wybodaeth a rennir yn y maes gwleidyddol ac ymwneud aelodau portffolio yn darparu sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd y Cyngor. Er bod gan y Cyngor gyfrifoldebau amrywiol a'i fod yn wynebu pwysau ariannol a disgwyliadau parhaus, roedd yn credu bod y systemau sydd ar waith yn addas i'r pwrpas at ei gilydd, ond roedd yn cydnabod fod lle i wella bob amser.

Esboniodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, fod y ddogfen hon bron ar frig hierarchaeth strategol y Cyngor, a bod cynlluniau perfformiad mwy manwl yn cael eu datblygu ar gyfer meysydd gwasanaeth unigol a'u bod yn cael eu cyflwyno er mwyn craffu arnynt. Nododd y byddai cynnwys y dogfennau hyn i gyd yn y ddogfen gyflawni'n gwneud y ddogfen yn rhy gymhleth ac anhylaw. Gan dynnu ar ei brofiad fel cyn Aelod Portffolio Tai, tynnodd sylw at waith ymgysylltu'r gwasanaeth gyda thenantiaid - maes oedd angen bod yn fwy penodol yn ôl y Cynghorydd Ieuan Williams. Pwysleisiwyd y gwerth a roddwyd ar dderbyn adborth gan denantiaid, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ac roedd yn credu bod ymwneud parhaus a digwyddiadau a dargedir yn caniatáu i'r Gwasanaeth gasglu ystod eang o safbwyntiau. Oherwydd hyn mae newidiadau ystyrlon yn cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i'r adborth hwn.

Yn ei sylwadau clo, diolchodd y Cynghorydd Carwyn Jones i'r aelodau am eu hadborth, a phwysleisiodd fod y ddogfen gyflawni'n fap trywydd i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Pwysleisiodd y byddai gwasanaethau unigol yn gyfrifol am fonitro cynnydd eu hymrwymiadau eu hunain - a bydd y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn adroddiadau ar nifer ohonynt. Bydd hynny'n cynnig cyfleoedd pellach i wneud sylwadau tra bydd y Bwrdd Rhaglen yn goruchwylio cyflawniad cyffredinol.

**Ar ôl adolygu'r ddogfen a derbyn sicrwydd gan swyddogion a'r Aelod Portffolio ynglŷn â'r pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y Ddogfen Gyflawni Flynyddol 2025/26 i'r Pwyllgor Gwaith i'w chymeradwyo.**

## 5 TO DIFFYGIOL CANOLFAN ADDYSG Y BONT: GWERSI A DDYSGWYD

Cyflwynwyd i'r pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo oedd yn nodi'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn methiant y to yng Nghanolfan Addysg y Bont.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, fel cofnod o'r gwersi a ddysgwyd ar ôl darganfod gwendidau yn y prosesau a ddefnyddiwyd wrth adeiladu to Canolfan Addysg y Bont, gan gynnwys dyluniad yr adeilad, gosod y contract a threfniadau rheoli. Mae'r gwersi a nodir yn y cynllun gweithredu yn Atodiad A naill ai wedi cael eu gweithredu, maent ar y gweill, neu byddant yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer pob prosiect adeiladu yn y dyfodol.

Roedd y pwyllgor yn croesawu'r adroddiad a chanmolodd y ffaith ei fod mor agored, yn ogystal â'i ymrwymiad i ddysgu a gwella. Awgrymwyd y dylid paratoi crynodeb un dudalen, hawdd ei ddeall, ar gyfer y cyhoedd, yn ogystal â rhannu gwybodaeth bellach gydag aelodau ynglŷn â mesurau i gryfhau prosesau cadw dogfennau. Holodd yr aelodau hefyd a fyddai'r Cyngor yn ystyried comisiynu toeau gwyrdd ar adeiladau ysgol yn y dyfodol.

Esboniodd y Cynghorydd Gary Pritchard fod y grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu Canolfan Addysg y Bont wedi'i ddyfarnu'n rhannol oherwydd bod y dyluniad yn un arloesol. Mae'r adroddiad yn nodi disgwyliadau eglur ar gyfer dylunio, adeiladu a rheoli

systemau cymhleth newydd fel rhan o brosiectau yn y dyfodol, gan gynnwys toeau. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y Gwasanaeth Eiddo wedi cwblhau pum ysgol newydd arall ers adeiladu Canolfan Addysg y Bont yn 2013, ac nid oedd dyluniad yr un ohonynt yn cynnwys toeau oer neu doeau gwyrdd.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr werth hunanarfarnu, yn enwedig o ran nodi gwersi a hyrwyddo gwelliannau. Diolchodd hefyd i bawb a ymatebodd yn brydlon pan ddaeth y problemau gyda'r to i'r amlwg, gan gynnwys yr ysgol, yr ysgol uwchradd a'r ganolfan hamdden, y Gwasanaethau Dysgu, Eiddo a Chyllid, yn ogystal â'r adran Iechyd a Diogelwch ac aelodau'r Cyngor. Roedd pawb wedi cydweithio er mwyn datrys y broblem a lleihau unrhyw amharu. Roedd yr ymateb yn rhagorol yn ei farn ef, o ran agweddau technegol yr adeilad a'r gefnogaeth a roddwyd i staff a disgyblion yr ysgol.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r Cyngor am sut y deliodd â'r broblem a'i ymrwymiad i ddysgu o'r profiad.

Penderfynwyd nodi'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd i'w rhoi ar waith, fel y cânt eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A.

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2026.

**Penderfynwyd -**

- **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Flaen Raglen Waith.**

**Y Cynghorydd Jeff Evans**
**Cadeirydd**

DRAFT

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 17/09/2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch1 2025/26 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Cyng. Carwyn E Jones | Deilydd Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Carys Edwards | Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol a Thrawsnewid |
| Gwyndaf Parry | Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, i:

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad / darpariad yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol , Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

1. Gofynnir i'r Pwyllgor craffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.

2. Argymhellir y rhain fel a ganlyn:



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

2.1. Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);
2.2. Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);
2.3. Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);
2.4. Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;
2.5. Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

**Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod i'r Pwyllgor Gwaith**

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Defnyddir fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad i fonitro Cynllun y Cyngor a'i amcanion strategol a llesiant.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Perfformiodd y mwyafrif (90%) o'r dangosyddion gyda thargedau yn dda yn erbyn targedau (RAG Gwyrdd neu Felyn) yn ystod y chwarter.
2. Amlygwyd chwe ardal fel enghreifftiau o berfformiad da a welwyd yn ystod Chwarter 1.
3. Mae pum dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn y targedau – 3 dangosydd Tai, newid hinsawdd a Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor.

**1.2** Mae mwyafrif (90%) o'r dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn)

**1.3** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Mae 256 o gleientiaid bellach yn rheoli eu gofal drwy Daliadau Uniongyrchol, cynnydd o 21% o'i gymharu â Ch1 24/25 (212 o gleientiaid)

- Cafwyd bron i 147,000 o gymryd rhan mewn gweithgareddau Môn Actif yn ystod y chwarter
- Gwnaeth ffigurau presenoldeb mewn ysgolion Cynradd (93.2%) ac Uwchradd (88.2%) wella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (92% ac 87% yn y drefn honno)
- Mae nifer y ceisiadau am gymorth digartrefedd (asesiadau adran 62) wedi gostwng o 185 yn 24/25 i 117 yn 25/26.
- Mae'r dangosyddion cynllunio gyda thargedau (dangosyddion Economi 5 a 6) yn Wyrdd yn rhagori yn erbyn targedau ar gyfer y chwarter
- Mae cyfanswm allyriadau carbon (156.5 tCO2e gan gynnwys WTT) o fflyd y cyngor 3.5% yn llai na'r flwyddyn flaenorol

**1.4** Mae pum dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau

- Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);
- Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);
- Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);
- Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;
- Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

**7. Asesiadau effaith**

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amh.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Amh.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Amh.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Mae'r adroddiad yn un offeryn a ddefnyddir i fonitro'r Amcan Strategol Newid Hinsawdd |

**8. Goblygiadau ariannol**

| |
|---|
| Nodir sefyllfa ariannol diwedd chwarter 1 yn yr adroddiad |

**9. Atodiadau**

| |
|---|
| Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch1 2025/26 |

**10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir**

| |
|---|
| Gwyndaf Parry, Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol<br>Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol<br>Cynllun y Cyngor 2023-2028<br>Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch4 2024/25 (fel y'i cyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Mehefin 2025) |

# Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2025/26

## Adroddiad Chwarter 1



**Paratowyd gan –** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Medi 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol ac yn nodi'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.



Welsh Language | Social Care and Wellbeing | Education | Housing | Economy | Climate Change

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

1.2 Defnyddir yr adroddiad cerdyn sgorio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer 2024/25 wrth gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor sy'n sail i gyflawni Cynllun y Cyngor.

1.3 Mae nifer o DPA yn newydd (wedi'u nodi gan [N] yn y teitlau), nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Bydd tueddiadau'n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2025/26 gyda'r nod o osod targedau yn 2026/27 lle bo'n briodol.

1.4 Mae'n darparu'r dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i fonitro ei berfformiad a bod yn wybodus o ddata wrth nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i ysgogi a sicrhau gwelliannau perfformiad yn y dyfodol.

1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio i gyd yn gronnol ac felly mae colofn tuedd ar gael o Ch2 i hysbysu'r tueddiadau perfformiad o un chwarter i'r llall chwarter.

1.6 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

## 2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (90%) o'r dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Mae pum dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau:

2.2.1 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – COCH – 89 diwrnod, Targed – 51 diwrnod

Mae hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer y flwyddyn. Yn flaenorol, roedd y cerdyn sgorio yn adrodd ar fesur tebyg a oedd yn cynnwys ail-osodiadau ac eiddo newydd. Yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr tai eraill ledled Gogledd Cymru, daeth yn amlwg nad oedd eiddo newydd yn cael eu cynnwys yn eu cyfrifiadau. Er mwyn sicrhau cysondeb â'n partneriaid rhanbarthol ac i gyd-fynd â'r canllawiau, mae'r dangosydd hwn bellach yn mesur dim ond ail-osod eiddo presennol.

Mewn ymateb i'r dull cyfrifo diwygiedig, cynhaliodd y gwasanaeth adolygiad trylwyr o'i brosesau, gan arwain at nifer o welliannau. Cyn y newidiadau hyn, roedd yr amseroedd ail-osod tua 101 ar gyfartaledd. Ers cyflwyno'r prosesau newydd ym mis Ebrill, mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol, gyda'r amseroedd ail-osod bellach tua 54 diwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn wedi cyfrannu at gyfartaledd am Ch1 o 89 diwrnod.

Bydd y gwasanaeth yn parhau i ymgorffori a mireinio'r prosesau hyn. Yn seiliedig ar y canlyniadau cadarnhaol cynnar, rhagwelir gwelliant pellach yn y dangosydd hwn dros gyfnod y flwyddyn.

2.2.2 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k) - AMBR - 205 diwrnod, Targed - 190 diwrnod
ac
Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) - addasiadau (>£10k) – COCH – 285 diwrnod, Targed - 221 diwrnod

Oherwydd y perygl o wario dros y gyllideb, rhoddwyd seibiant ar gymeradwyo ceisiadau newydd ym mis Tachwedd 2024. Cafodd hyn effaith pan ddechreuodd y gwasanaeth gymeradwyo eto tuag at ddiwedd Ch4 24/25. Yn anffodus, roedd y

contractwyr llwyddiannus eisoes wedi symud ymlaen i brosiectau eraill, a arweiniodd at oedi wrth ddechrau contractau. Er cynnydd bach yn y nifer o gontractwyr sydd ar gael yn lleol, nid yw hyn wedi arwain at llawer ohonynt yn ennill tendrau DFG.

Er cyd-destun, cwblhawyd 9 eiddo gydag addasiadau 'canolig' a 2 eiddo gyda addasiadau 'mawr' yn ystod Ch1. Mae'r cyngor yn parhau'n ymrwymedig i leihau nifer cyfartalog y diwrnodau calendr i gyflawni GCA

2.2.3 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – COCH - 65.95%, Targed - 70%

Roedd perfformiad Ch1 ar gyfer y dangosydd hwn yn 65.95% yn erbyn targed o 70%, sy'n cynrychioli dirywiad o gymharu â 67.52% yn Ch1 2024/25 a 69.72% yn Ch1 2023/24.

Cafodd gwastraff gweddilliol a gasglwyd yn ystod y cyfnod ei leihau o 281 tunnell o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n ganlyniad cadarnhaol. Fodd bynnag, oherwydd y tywydd sych casglwyd 276 tunnell yn llai o wastraff gwyrdd, a gafodd effaith negyddol ar y gyfradd ailgylchu a chompostio gyffredinol. Disgwylir effaith dymhorol debyg yn Ch2.

Er mwyn lliniaru ac i geisio gwella'r gyfradd, bydd y cyngor yn parhau â'i nod o leihau gwastraff cyffredinol ac annog mwy o ailgylchu drwy gydweithio â'r cymunedau lleol i addysgu trigolion. Mae hon yn strategaeth hirdymor sy'n gofyn am newid ymddygiad parhaus, felly bydd gwelliannau'n raddol yn hytrach nag yn syth.

Mae'r cyngor wedi sefydlu bwrdd rhaglen i drafod pa fesurau lliniaru pellach y gellir eu rhoi ar waith. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol a nodir gan y bwrdd yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini cyn gwneud unrhyw newidiadau.

2.2.4 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser – COCH – 74%, Targed – 90%

Cafwyd 214 o geisiadau yn ystod Ch1 a 55 o'r ceisiadau hynny yn hwyr. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i gynyddu'r gyfradd ymateb i geisiadau FOI, fodd bynnag, mae gwaith i symud ceisiadau FOI i system ar-lein wedi'i ohirio oherwydd diffyg capasiti i brofi a datblygu'r system. Mae'r system bellach wedi'i hamserlennu i fod ar waith yn ystod Ch3 ac fe gredir y dylai'r system ar-lein newydd wella'r perfformiad yn y tymor hir. Mae rhywfaint o ostyngiad mewn capasiti o fewn y gwasanaethau i ddelio â thasgau FOI hefyd yn sicrhau bod cyrraedd y targed o 90% yn un heriol.

2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

2.3.1 Mae 256 o gleientiaid bellach yn rheoli eu gofal drwy Daliadau Uniongyrchol, cynnydd o 21% o'i gymharu â Ch1 24/25 (212 o gleientiaid)
2.3.2 Cafwyd bron i 147,000 o gymryd rhan mewn gweithgareddau Môn Actif yn ystod y chwarter
2.3.3 Gwnaeth ffigurau presenoldeb mewn ysgolion Cynradd (93.2%) ac Uwchradd (88.2%) wella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (92% ac 87% yn y drefn honno)
2.3.4 Mae nifer y ceisiadau am gymorth digartrefedd (asesiadau adran 62) wedi gostwng o 185 yn 24/25 i 117 yn 25/26.
2.3.5 Mae'r dangosyddion cynllunio gyda thargedau (dangosyddion Economi 5 a 6) yn Wyrdd yn rhagori yn erbyn targedau ar gyfer y chwarter
2.3.6 Mae cyfanswm allyriadau carbon (156.5 tCO2e gan gynnwys WTT) o fflyd y cyngor 3.5% yn llai na'r flwyddyn flaenorol

## 3. Yr Iaith Gymraeg

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Ch1 2024/25 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran o swyddi hysbysebir gan y Cyngor gyda'r gofyniad iaith Gymraeg lefel 3 ac uwch [N] | 85% | 82% | G | 82% | 137 o swyddi hysbysebir ar lefel 3 ac uwch |
| 02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg | 50 | 43 | G | 43 | |
| 03) Nifer o gwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safonau iaith Gymraeg | 0 | 2 | G | 2 | Dim cwynion yn ystod Ch1 |
| 04) Nifer o gwynion arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg | 1 | | | 0 | Un ymchwiliad yn erbyn cwyn a gododd yn 24/25 |
| 05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg | 9% | 9% | G | 8% | Ychydig mwy o ymweliadau i gymharu â Ch1 24/25 |
| 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg | - | 8% | - | 15% | Dim ymghynghoriad swyddogol wedi cwblhau yn Ch1 |
| 07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor | 23% | 23% | G | 23% | |
| 08) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] | | | | 68% | Data ar gael yn Ch3 |
| 09) Uned Iaith - % o blant yn cyrraedd eu disgwyliadau (trochi) [N] | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 10) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth Iaith Gymraeg [N] | | | | | Data ar gael yn Ch3 |

## 4. Gofal Cymdeithasol a Lleisiant

| | Ch1 | 0 | CAMG Ch1 | Ch1 2024/25 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol | 256 | 224 | G | 212 | Cynnydd o 21% mewn blwyddyn |
| 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol | 96.34% | 90% | G | 89% | |
| 03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol | 88.07% | 85% | G | 95% | |
| 04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal | 295 | 335 | G | 289 | |
| 05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | 98.20% | 93% | G | 94% | |
| 06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter | 163 | 270 | G | 142 | |
| 07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr | 3.57% | 15% | G | 0 | |
| 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 7.69% | 15% | G | 7.5% | |
| 09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 90.61% | 90% | G | 94% | |
| 10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni | 100% | 85% | G | 100% | |
| 11) Nifer o ymweliadau a Chanolfannau Hamdden | 129096 | 130232 | M | 130704 | |
| 12) Nifer o bobl wedi ymwneud a gweithgareddau Mon Actif [N] | 146746 | 140232 | G | | |
| 13) Canran o rieni sy'n teimlo eu bod wedi gweld cynydd yn dilyn cwblhau y rhaglen Positive Parenting Programme (PPP) [N] | | | | | Data ar gael yn Ch4 |

## 5. Addysg

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Q1 2024/25 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) | 93.2% | 95% | M | 92% | Data ar gyfer blwyddyn academaidd 24/25 |
| 02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) | 88.2% | 90% | M | 87% | Data ar gyfer blwyddyn academaidd 24/25 |
| 03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET] | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 04) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn | 1 | | | 1 | |
| 05) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol | 23 | | | 14 | Data ar gyfer blwyddyn academaidd 24/25 |
| 06) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol | 6 | 6 | G | 6 | |
| 07) Canran yr oedolion sy'n credu, ar y cyfan, fod y gwasanaeth llyfrgell maen nhw'n ei ddefnyddio yn 'dda iawn' neu'n 'dda' [N] | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 08) Y sgôr cyfartalog gyffredinol allan o ddeg a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell y maent yn ei ddefnyddio [N] | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 09) CDU - canran o blant sy'n cyrraedd eu targedau [N] | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 10) Nifer y plant sydd wedi symud i fyny, neu wedi cwblhau, Rhaglen Nofio Môn. [N] | 924 | 720 | G | | |

## 6. Tai

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Q1 2024/25 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol | 15 | 18 | G | | |
| 02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol | 84% | 85% | M | 88% | |
| 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) [N] | 89 | 51 | C | | Cyflwynwyd prosesau newydd ym mis Ebrill. Cyn y prosesau newydd, roedd yn cymryd cyfartaledd o 101 diwrnod i gwblhau ailosodiadau. Ers Ebrill, mae hyn wedi gostwng i gyfartaledd o 54 diwrnod, gan ddod â'r cyfartaledd cyffredinol o eiddo a ail-osodwyd yn Ch1 i 89 diwrnod |
| 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau (£1k-10k) | 205 | 190 | A | 185 | Cwbwlhawyd 9 o addasiadau chanolig yn Ch1 |
| 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (>£10k) | 285 | 221 | C | - | Cwbwlhawyd 2 o addasiadau mawr yn Ch1 |
| 06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor | 4 | 4 | G | 22 | |
| 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol | 3.19% | 3.10% | M | 3% | |
| 08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag | 15 | 15 | G | 16 | |
| 09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref | 80% | 85% | M | 83% | |
| 10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) | 117 | | | 185 | Mae nifer y ceisiadau wedi gostwng o 185 yn 24/25 i 117 yn 25/26 |
| 11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd | 79 | | | 85 | |

## 7. Economi

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Q1 2024/25 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd | 70% | | | 38% | |
| 02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economiadd ac adfywio (£) [N] | £1.653m | | | | |
| 03) Canran yr unedau busnes a masnachol osodwyd gan y Cyngor [N] | 95% | 90% | G | | |
| 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol | 100 | 105 | M | 179 | |
| 05) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | 94% | 90% | G | 97% | 154 o geisiadau cynllunio wedi'u penderfynu mewn pryd |
| 06) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | 87% | 80% | G | 97% | |
| 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | 85% | 90% | M | 71% | |
| 08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd | 99% | 95% | G | 98% | |
| 09) Nifer o bobl wedi eu cefnogi i baratoi ar gyfer byd gwaith, drwy ymyraethau SPF [N] | 162 | | | | |

## 8. Newid Hinsawdd

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Q1 2024/25 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy’n dod o adeiladu’r cyngor (tC02e) | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 65.95% | 70% | C | 67.52% | Roedd 276T yn llai o wastraff gwyrdd wedi cael ei gompostio o'i gymharu â Ch1 24/25 oherwydd y tywydd sych. Ar y ochr bositif, roedd gwastraff gweddilliol hefyd i lawr 281T o’i gymharu â 24/25 |
| 03) Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu’r Cyngor | 46% | | | 48.3% | Mae'r gyfradd wedi gostwng o'i gymharu â Ch1 2024/25 |
| 04) Canran y strydoedd sy’n lân | 100% | 96% | G | 96.6% | |
| 05) Nifer y dyddiad a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 0.01 | 1 | G | 0.04 | |
| 06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tC02e inc WTT) | 156.5 | 162 | G | 162 | |
| 10) Nifer o Ysgolion yn cymryd rhan mewn cynlluniau Newid Hinsawdd wedi eu achredu [N] | | | | | Data ar gael yn Ch2 |
| 11) Nifer o systemau gwresogi carbon isel wedi eu gosod yn adeiladau y Cyngor [N] | 76,786 | | | | Byddai 76,876kWh yn pweru car trydan am tua 255,000 o filltiroedd. |

## 9. Iechyd Cyngor Cyfan

| | CAMG | Cyllideb | Canlyniad | Amrywiant (%) | Rhagolygon o'r Gwariant | Amrywiant a Ragwellir (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) | G | £192,981,000 | | | £192,376,000 | -0.31% |
| 02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) | | £56,186,135 | | | £54,789,561 | -2.49% |
| 03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau) | G | -£4,282,870 | -£5,213,419 | 21.73% | | |
| 04) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn | | | | | -£17,258,000 | |
| 05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer | G | 1.9% | | | 1.9% | |
| 06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb | | | | | 5 | |
| 07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | M | | 91.0% | | | |
| 08) % y Mân Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | M | | 96.8% | | | |

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|
| 09) Cyfanswm y cwynion cam 2 a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol | 1 | 3 | G | Un cwyn wedi eu cadarnhau/cadarnhau'n rhannol o'r tri cwyn |
| 10) Cyfanswm % y cwynion cam 2 a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | 100% | 80% | G | |
| 11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | 80% | 80% | G | Roedd un cwyn cam 1 yn hwyr ond roedd amser ychwanegol wedi cytuno gyda'r achwynydd |
| 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser | 74% | 90% | C | 55 o'r 214 cais FOI yn hwyr |
| 13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) | 32% | | | |
| 14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 2376 | | | |
| 15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | 1.93 | 2.12 | G | |
| 16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 0.92 | | | |
| 17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 1.01 | | | |
| 18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) | | | | |
| 19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith | 78% | 70% | G | 49 o swyddi wedi llenwi ar ôl yr hysbyseb cyntaf |

## 10. Casgliad ac Argymhellion

10.1 Mae'r perfformiad o 90% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.

10.2 Mae'n dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.

10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**

10.3.1 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);

10.3.2 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);

10.3.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);

10.3.4 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;

10.3.5 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

This page is intentionally left blank

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 17 Medi 2025 |
| **Pwnc:** | Argymhelliad grŵp tasg a gorffen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - eiddo gwag a dyraniadau y Gwasanaethau Tai |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio / swyddog arweiniol yn cyflwyno'r adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Robin Williams | Aelod Portffolio Tai |
| **Swyddog Gwasanaeth (Cefnogi)** | **Rôl** |
| Ned Michael | Pennaeth Gwasanaethau Tai |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Gofynnodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am ddiweddariad yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac Argymhellion

☒ Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒ Er gwybodaeth

Argymhelliad/argymhellion: Nodi'r diweddariad ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Medi 2025 ar gasgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen Eiddo Gwag.

## 4. Sut mae'r argymhelliad/argymhellion yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

**Tai - sicrhau fod gan bawb le i'w alw'n gartref**

- Rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid, megis cymdeithasau tai cofrestredig, i ymateb i heriau tai lleol.
- Byddwn yn cydweithio i adnabod anghenion tai'r ynys fel y gallwn ateb y galw a chynnig y daliadaethau angenrheidiol.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein stoc dai drwy ailfodelu eiddo sydd bellach yn anaddas a gweithio tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru II.
- Lleihau'r galw am unedau llety brys drwy ddatblygu mwy o gartrefi parhaol.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English.

Parhau i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd ledled yr ynys.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]
2. Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]
3. Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]
4. Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]
5. Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
   - Hirdymor
   - Atal
   - Integreiddio
   - Cydweithio
   - Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**Diweddariad Cyffredinol ar Gynllun Gweithredu'r Gwasanaethau Tai ar gyfer Eiddo Gwag**

Ers adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Chwefror rydym wedi gweithio tuag at wella ein gweithdrefnau ar gyfer rheoli eiddo gwag er nad ydi'r gwelliannau hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn y dangosydd perfformiad cyffredinol eto.

Ers i'r Grŵp Tasg a Gorffen gynnal ei adolygiad o'r broses Rheoli Eiddo Gwag yn ystod mis Mawrth 2024 mae ffactorau allanol, na fyddai eu goblygiadau er mwyn cydymffurfio wedi bod yn hysbys ar adeg yr adolygiad, wedi cynyddu'r cyfnod ar gyfer paratoi eiddo ar gyfer ei ail osod ar ddiwedd tenantiaeth, sef SATC2023 a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2023 a Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2026 a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2022.

Pan gynhaliodd y Grŵp Tasg a Gorffen ei adolygiad roedd gwaith ar y gweill i baratoi 46 eiddo gwag ar gyfer eu hail-osod.

Ers yr adolygiad, ac o ganlyniad i gydymffurfio â SATC2023 a DRhCC2016, ynghyd â'r nifer uchel o dai cymdeithasol sydd wedi cael eu datblygu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithredu ar yr Ynys, mae nifer yr eiddo gwag ar unrhyw adeg benodol wedi cynyddu'n sylweddol ac ar ddiwedd mis Medi 2024 roedd gennym dros 100 eiddo gwag.

Mae llawer iawn o waith wedi cael ei gwblhau i baratoi'r eiddo hyn ar gyfer eu hail-osod ac ar 18 Awst roedd gennym 57 eiddo gwag.

Cyflawnwyd hyn yn dilyn penodi Goruchwyliwr Eiddo Gwag a recriwtio peintwyr mewnol yn ogystal â'r opsiwn i ddefnyddio contractwyr allanol o dan y fframwaith contractwyr newydd sydd bellach mewn grym.

Pob blwyddyn, mae'r Gwasanaethau Tai yn ail-osod oddeutu 270 eiddo.  Mae trosiant tenantiaid yn her sylweddol yn y sector tai ac yn gostus.

Er bod eiddo gwag yn her, mae'n yn gyfle i archwilio, adnewyddu a gwella effeithlonrwydd pob cartref ar gyfer y tymor hwy.  Mae hefyd yn gyfle i sicrhau bod ein cartrefi'n cwrdd â'r safonau statudol, yn cynnwys y gwaith sydd ei angen i gydymffurfio â SATC2023.

Y targed diwygiedig ar gyfer 2025/26 ar gyfer paratoi eiddo gwag ar gyfer eu hail-osod yw 51 diwrnod calendr:-

| 37 Diwrnod Gwaith/51 Diwrnod Calendr | |
|---|---|
| Diwrnod 1-3 | Newid cloeau, archwiliadau diogelwch, arolwg pen-bwrdd gan arolygwr |
| Diwrnod 4-5 | Arolygwr i adolygu'r safle, paratoi adroddiad a nodi'r gwaith angenrheidiol ar y system |
| Diwrnod 6-7 | Clirio'r eiddo |
| Diwrnod 8-9 | Cael gwared ar asbestos |
| Diwrnod 10-30 | Gwaith plastro, gwaith saer, gwaith trydanol, gwaith plymio, gwaith addurno, 1 elfen sylweddol (heb fod yn eiddo gwag sydd angen gwaith sylweddol) |
| Diwrnod 31-37 | Adeiladwyr i lanhau'r eiddo, gosod carpedi a lloriau diogel yn y gegin a'r ystafell ymolchi, glanhau'r eiddo eto (yn cynnwys llwybrau allanol, ffenestri a drysau), trosglwyddiad technegol |

Mae'r dosbarthiad hwn yn berthnasol i waith yn gysylltiedig â mân atgyweiriadau, addurno, gwiriadau diogelwch statudol a gwasanaethu.

Mae adnewyddu eiddo gwag sydd angen gwaith sylweddol yn cael effaith sylweddol ar adnoddau ac ar gyllidebau. Mae'r dosbarthiad hwn yn berthnasol i atgyweiriadau sylweddol, gwaith plastro sylweddol, buddsoddiadau cyfalaf megis gosod cegin /ystafell ymolchi / system wresogi newydd ac

ati, gwiriadau diogelwch a gwasanaethu. Nid yw eiddo gwag sydd angen gwaith sylweddol wedi'u cynnwys yn yr amserlen darged yn y Dangosydd Perfformiad.

Ein perfformiad rhwng 1 Ebrill a 18 Awst:-

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Trosiant ar gyfartaledd yn cynnwys eiddo newydd | 53 eiddo = 71.3 diwrnod |
| 2 | Trosiant ar gyfartaledd ac eithrio eiddo anodd eu gosod (yn cynnwys eiddo newydd) | 46 eiddo = 64.1 diwrnod |
| 3 | Trosiant ar gyfartaledd ac eithrio eiddo newydd | 45 eiddo = 84 diwrnod |
| 4 | Trosiant ar gyfartaledd ac eithrio eiddo newydd ac Eiddo Anodd eu Gosod | 38 eiddo = 77.6 diwrnod |
| 5 | Trosiant eiddo gwag ar gyfartaledd ers mis Ebrill (ac eithrio eiddo newydd) | 20 eiddo = 53.9 diwrnod |
| 6 | Trosiant eiddo gwag ar gyfartaledd ers mis Ebrill (ac eithrio eiddo newydd ac eiddo anodd eu gosod) | 19 eiddo = 54.5 diwrnod |
| 7 | Trosiant eiddo gwag ar gyfartaledd cyn mis Ebrill (ac eithrio eiddo newydd) | 25 eiddo = 108.1 diwrnod |
| 8 | Trosiant eiddo gwag ar gyfartaledd cyn mis Ebrill (ac eithrio eiddo newydd ac eiddo anodd eu gosod) | 19 eiddo = 100.6 diwrnod |

Mae goblygiadau DRhCC2016 pan fydd tenantiaid yn marw wedi ychwanegu 156 diwrnod i'r cyfnod eiddo gwag.

Ar gyfartaledd mae hyn wedi ychwanegu 14 diwrnod i'r 11 'eiddo gwag yn dilyn marwolaeth tenant'. Byddai'r trosiant ar gyfartaledd heb yr eiddo gwag ychwanegol yn golygu gostyngiad o 2.9 diwrnod i'r ffigwr sydd wedi'i nodi yn rhif 1 uchod gan roi perfformiad o 68.4 diwrnod.

**<u>Yn ogystal â'r uchod, mae'r camau gweithredu canlynol wedi cael eu cyflawni;</u>**

- adolygu'r cyfarfodydd eiddo gwag a oedd yn cael eu cynnal pob pythefnos gyda staff gweithredol a datblygu fformat newydd lle mae staff gweithredol yn cwrdd pob wythnos i drafod eiddo'n fanwl ynghyd â sefydlu grŵp monitro.
- datblygu dogfen monitro eiddo gwag yn seiliedig ar ddata penodol, fel y gall yr adran weld yr amserlenni trosiant mewn amser real ynghyd â'r incwm a gollir ar bob eiddo.
- recriwtio peintiwr ac addurnwr ychwanegol (roedd y swydd hon wedi cael ei hysbysu 4 gwaith cyn i ni benodi).
- cwrdd â'r Rhwydwaith Ansawdd Tai i ddeall eu pecyn cymorth eiddo gwag - enghraifft allweddol a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfarfod hwn yw bod arolygwr rhai awdurdodau lleol yn archwilio eiddo yn ystod y cyfnod rhybudd ac yn creu rhestr o'r holl gamau gweithredu. Byddai hyn yn lleihau'r amser aros rhyw fymryn gan na fyddai'n rhaid aros i'r tenant roi'r goriadau yn ôl.

**Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol**

- Bydd y Rheolwr Tai a'r Rheolwr Cynnal a Chadw yn archwilio eiddo ar ddiwedd pob tenantiaeth i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a gofynion cyn i'r tenant symud o'r eiddo.
- Datblygu holiadur i'w roi i denantiaid I i ddeall pam eu bod wedi penderfynu symud o'r eiddo. Bydd rhai pethau y tu hwnt i'n rheolaeth, er enghraifft tenantiaid yn marw neu'n symud i gartref preswyl.
- Cynnal dadansoddiad manwl o'n heiddo gan ddefnyddio'n taenlen newydd i fonitro eiddo gwag er mwyn adnabod a datrys problemau ynghynt drwy drafod a chynllunio'n amlach (er enghraifft, gall y daenlen newydd amlygu eiddo sy'n peri pryder naill ai oherwydd diffyg adnoddau yn sgil salwch neu oedi gydag archebion cyfalaf, er enghraifft archeb am ddrws ffrynt newydd)
- Dysgu gwersi gan ardaloedd eraill a'r Rhwydwaith Ansawdd Tai a dysgu am ymyraethau nad ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd sydd wedi lleihau nifer y dyddiau a gymerir i baratoi eiddo gwag.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

7.2. Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

7.4. Effaith bosib ar darged Sero Net y Cyngor

Positif / Niwtral / Negatif a sut

## 8. Goblygiadau Ariannol

Y goblygiadau ariannol yw un o'r prif risgiau o ran gwaith yr awdurdod ar ei eiddo gwag. Po fwyaf o eiddo sydd gennym ar y rhestr eiddo gwag a po hiraf y mae eiddo ar y rhestr honno, po fwyaf yw'r golled incwm a po hwyaf y mae'n rhaid i deuluoedd aros mewn llety brys neu lety dros dro.

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| **<u>Atodiad 1 - Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu</u>** |

## 10. Awdur yr Adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Ned Michael - Pennaeth Gwasanaethau Tai |

| Rhif y Weithred | Gweithred | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau | Diweddariad Awst 2025 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu polisi rheoli eiddo gwag sy'n cynnwys Deddf Rhentu Tai Cymru SATC 2023 a safonau gofynnol y Cyngor ar gyfer gosod eiddo | Llinos Williams | Ebrill 2025 | Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol wedi cwblhau'r drafft terfynol. Aros i gael ei gymeradwyo gan y Rheolwr Cynnal a Chadw newydd. | Bydd y polisi'n cael ei gymeradwyo erbyn 30.09.2025 |
| 2 | Adolygu'r Polisi Gosodiadau Sensitif i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol ac yn cael cyn lleied o effaith â phosib ar nifer y dyddiau a gymerir i baratoi eiddo ar gyfer ei osod | Llinos Williams<br>Dewi Parry | Mawrth 2025 | Gweithred wedi'i chwblhau ac yn weithredol | |
| 3 | Datblygu cronfa ddata fyw / amser real i fonitro eiddo gwag yn barhaus | Darren Gerrard | Ionawr 2025 | Gweithred wedi'i chwblhau ac yn weithredol | |
| 4 | Datblygu'r grŵp gweithredol monitro eiddo gwag | Darren Gerrard | Ionawr 2025 | Gweithred wedi'i chwblhau ac yn weithredol | |
| 5 | Cynnal gweithdy i staff ar nifer y dyddiau a gymerir i baratoi eiddo | Ned Michael<br>Llinos Williams<br>Dafydd Rowlands | Ebrill 2025 | Unwaith y bydd y polisi Eiddo Gwag wedi cael ei gymeradwyo gan y Rheolwr Cynnal a | Bydd sesiynau mewnol yn cael eu cynnal ar gyfer staff |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | unwaith y bydd y polisi ar waith | | | Chadw, bydd gweithdy mewnol yn cael ei gynnal gyda swyddogion allweddol | Tai. Y dyddiad olaf ar gyfer y sesiynau mewnol fydd 30/09/2025. Hyn ynghyd ag ychwanegu'r polisi i'n gwefan a gofyn i'r panel tenantiaid ddatblygu fersiwn hawdd ei ddeall er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cynhwysol i bobl o bob gallu. |
| 6 | Adolygu gallu'r gweithlu Cynnal a Chadw, gan sicrhau ei fod yn perfformio'n dda bob amser. Ystyried achosion busnes ar fuddsoddi er mwyn recriwtio i arbed yn hytrach nag is-gontractio. | Dafydd Rowlands | Ionawr 2025 | Mae pob swydd wedi'i llenwi fwy neu lai yn dilyn cyfnod o fethu â dod o hyd i weithwyr cymwys a phrofiadol. Ar hyn o bryd, Awst 2025, mae un swydd peintiwr ac addurnwr yn wag. Rydym wedi ceisio recriwtio sawl gwaith heb lwyddiant. Mae'n | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | rhaglen prentisiaethau'n dechrau dwyn ffrwyth. Cafodd nifer o'n prentisiaid eu penodi'n llawn amser ar ddiwedd eu cwrs.<br>Ers mis Mawrth eleni, rydym wedi penodi Goruchwyliwr Eiddo Gwag i fonitro a gyrru gwelliannau gweithredol, yn enwedig nifer y dyddiau a gymerir i baratoi eiddo gwag.<br>Yn ystod hanner cyntaf 2025 rydym wedi cwblhau'r broses o sefydlu fframwaith newydd ar gyfer isgontractwyr cymeradwy. Mae contractwyr wedi cael eu penodi ac mae'r fframwaith yn gwbl weithredol. Mae'r fframwaith newydd wedi cynyddu'r opsiynau ar gyfer is-gontractio ffrydiau gwaith penodol ar adegau prysur e.e. peintio ac addurno. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Byddwn yn dal i fonitro’r gweithlu, sydd â chapasiti llawn fwy neu lai, ynghyd â’r fframwaith is-gontractio newydd, i wneud yn siŵr ei fod yn ddigonol i wella a chynnal perfformiad. | |
| 7 | Datblygu gweithdrefnau gweithredol fel rhan o’r polisi eiddo gwag ehangach | Tîm Gweithredol Datrysiadau a Chynnal a Chadw | Mehefin 2025 (yn dilyn cymeradwyo’r polisi eiddo gwag) | Yn ddibynnol ar gymeradwyo’r Polisi Eiddo Gwag | Yn dilyn ei gymeradwyo erbyn 30/09/2025, bydd gweithdrefnau’n cael eu datblygu. |
| 8 | Ceisiadau Ar-lein drwy’r CRM | Llinos Williams Lesley Roberts | Mehefin 2025 | Mae’r profion wedi cael eu cwblhau, mae Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data wedi cael ei gwblhau a bydd y ffurflen ymgeisio ar-lein yn cael ei chyhoeddi yn ystod Ch3 | |
| 9 | Gweithdy i Aelodau Etholedig ar y polisi Eiddo Gwag, gweithdrefnau a sut y gallant helpu i leihau'r galw ar swyddogion (er enghraifft, cysylltu’n | Llinos Williams Dewi Parry | Haf 2025 | Bydd hyn yn cael ei drefnu unwaith y bydd y Polisi Eiddo Gwag wedi cael ei gymeradwyo | Yn dilyn ei gymeradwyo ar 30/09/2025, bydd trefniadau’n cael eu gwneud yn unol ag argaeledd yr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddi-baid ynglŷn â cheisiadau) | | | | aelodau etholedig. |
| 10 | Pennu cost SATC2023 a datgarboneiddio yn gysylltiedig ag eiddo gwag ar gyfer y 10 mlynedd nesaf | Dafydd Rowlands | Mawrth 2025 | Yn ystod Hanner Cyntaf eleni cafwyd oedi gyda'r Asesiad Stoc Gyfan a'r Llwybrau Ynni Targed dilynol wrth i ni aros am y fersiwn diweddaraf o'r SAP, sef SAP 10. Cyhoeddwyd SAP 10 yn swyddogol yn ystod mis Gorffennaf 2025.<br>Mae gennym darged penodol ar gyfer pennu'r Llwybrau Ynni Targed a'r costau cysylltiedig erbyn 31/03/2026.<br>Mae'r targed hwn 12 mis yn gynharach na tharged statudol SATC 2023. | |
| 11 | Cyfarfodydd rheoli rheolaidd ynglŷn ag eiddo sy'n peri pryder (h.y. os ydynt yn debygol o fethu'r targed) - cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer yr eiddo | Dewi Meredith<br>Darren Gerrard<br>Dewi Parry | | Cyfarfodydd yn cael eu cynnal pob pythefnos | |
| 12 | Dechrau cynnal archwiliadau diwedd tenantiaeth - hysbysu tenantiaid | Tai Cymunedol Gwasanaethau Technegol | Ebrill 2025 | Mae'r cam hwn yn faes yr ydym yn gweithio tuag at ei gyflawni, fodd bynnag oherwydd | Pan fydd gan y tîm gapasiti llawn, bydd trefniadau'n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ynglŷn â'r gofynion ar ddiwedd eu tenantiaeth ynghyd â'r polisi ail-godi tâl | | | capasiti'r staff dros y misoedd diwethaf, mae wedi bod yn heriol. Erbyn mis Medi 2025, bydd gan y tîm cyn-archwilio gapasiti llawn a bydd yr archwiliadau diwedd tenantiaeth yn cychwyn. | cael eu rhoi ar waith i gychwyn archwiliadau tenantiaeth. |
| 13 | Datblygu arolwg diwedd tenantiaeth i ddeall pam mae tenantiaid yn dymuno symud. | Llinos Williams<br>Dewi Parry<br>Karen Roberts | Ebrill 2025 | Mae hyn wedi cael ei ddatblygu ac rydym yn aros iddo gael ei gymeradwyo gan ein Grŵp Monitro Tenantiaid | Wedi gofyn am ddiweddariad gan y grŵp ar 02/09/2025 ac yn aros am gadarnhad. |
| 14 | Edrych ar brosesau ac amserlenni cyfredol yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai i leihau'r cyfnodau anghynhyrchiol. | Darren Gerrard<br>Dewi Meredith | | Ar y gweill ers penodi'r Rheolwr Cynnal a Chadw newydd. | Ar 05/09/2025 bydd DG a DM yn cwrdd â staff Adra i weld sut maent yn defnyddio eu system dracio i gefnogi'r gweithlu i fod yn fwy effeithlon. |
| 15 | Adolygu'r dangosydd perfformiad ar gyfer 2025-26 yn seiliedig ar y gost dybiedig o gwblhau x 4 eiddo | Tîm Rheoli Tai | Chwefror 2025 | Mae'r targed wedi cael ei adolygu i 51 diwrnod gyda chyfiawnhad | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwag yr wythnos. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen yn argymell x 35 diwrnod. | | | | |

This page is intentionally left blank

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **17 Medi, 2025** |
| **Pwnc:** | **1. Aelodau Sgriwtini ar Banelau – Enwebiadau'n seiliedig ar Gydbwysedd Gwleidyddol**<br>**2. Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb - enwebiad** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Jeff Evans** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

- Mae enwebiad Aelodau Sgriwtini i wasanaethu ar Banelau Sgriwtini / gweithgorau wedi bod yn fater i'r Pwyllgorau Sgriwtini gytuno
- Bu i'r Arweinyddion Grwpiau gytuno'n ddiweddar i ddiwygio aelodaeth y Panelau Sgriwtini i adlewyrchu egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[1]

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☐Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth
☒Er cytundeb

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno trefn aelodaeth ddiwygiedig ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol cyfredol y Cyngor
**A2** gytuno cylch gorchwyl ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini (fel y manylir yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn)
**A3** y ddau Bwyllgor Sgriwtini i enwebu 1 Aelod i wasanaethu ar Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb.

[1] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

| |
|---|
| Sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol yn sail i broses gwneud penderfyniadau cadarn. |

## 5. Themâu sgriwtini allweddol


| |
|---|
| Amherthnasol |

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. PANELAU SGRIWTINI – ENWEBIADAU'N SEILIEDIG AR GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

1.1 Mae Pwyllgorau Sgriwtini'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru'n gweithredu. Eu prif bwrpas ydy dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliannau, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau.

1.2 Mae ein strwythur lleol yn cynnwys 2 bwyllgor sgriwtini a thri o banelau:




1.3 Mae'r panelau sgriwtini wedi'u sefydlu er mwyn cwblhau ffrydiau gwaith ar ran y rhiant bwyllgorau sgriwtini ac maent yn grwpiau gweithredol heb yr hawl i wneud penderfyniadau.

1.4 Yn ddiweddar[2], cytunodd yr Arweinyddion Grŵp y dylid diwygio aelodaeth y panelau sgriwtini hyn i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. Isod mae manylion aelodaeth bresennol pob panel sgriwtini a'r aelodaeth yn seiliedig ar y fformiwla cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y Cyngor:

**Allwedd:**
**Grwpiau Gwleidyddol**

[2] Cyfarfod o'r Arweinyddion Grŵp a gynhaliwyd ar 1 Mai, 2025

PC - Plaid Cymru – The Party of Wales
GA - Y Grŵp Annibynnol (The Independent Group)
AM - Annibynwyr Môn (Anglesey Independents)
LlC - Llafur Cymru / Welsh Labour

## PANEL SGRIWTINI ADNODDAU

| Aelodaeth Gyfrefol | | Aelodaeth yn seiliedig ar Reolau Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| **Aelod** | **Grŵp Gwleidyddol** | |
| Cyng Geraint ap Bebb | PC | **3** – PC<br><br>**1 -** GA<br><br>**1** - LlC<br><br>**1** – AM |
| Cyng Dylan Rees | PC | |
| Cyng Ken Taylor | PC | |
| Cyng Ieuan Williams | GA | |
| Cyng Keith Roberts | LlC | |
| Sedd wag | AM | |

## PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

| Aelodaeth Gyfredol | | Aelodaeth yn seiliedig ar Reolau Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| **Aelod** | **Grŵp Gwleidyddol** | |
| Cyng Euryn Morris | PC | **4** – PC<br><br>**1 -** GA<br><br>**1** - LlC<br><br>**2** – AM |
| Cyng Llio Angharad Owen | PC | |
| Cyng Jackie Lewis | PC | |
| Cyng Sonia Williams | PC | |
| Cyng John Ifan Jones | PC | |
| Cyng Ieuan Williams | GA | |
| Cyng Pip O'Neill | LlC | |
| Cyng Jeff Evans | AM | |

## PANEL SGRIWTINI ADDYSG

| Aelodaeth Gyfredol | | Aelodaeth yn seiliedig ar Reolau Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| **Aelod** | **Grŵp Gwleidyddol** | |
| Cyng Margaret Roberts | PC | **4** – PC<br><br>**1 -** GA<br><br>**1** - LlC<br><br>**2** – AM |
| Cyng Non Dafydd | PC | |
| Cyng Arfon Wyn | PC | |
| Cyng Alwen Watkin | PC | |
| Cyng Gwilym Jones | GA | |
| Cyng Ieuan Williams | GA | |
| Cyng Keith Roberts | LlC | |
| Cyng Derek Owen | AM | |

| |
|---|
| **2. PANELAU SGRIWTINI – CYLCH GORCHWYL**<br>2.1 Fel y bydd Aelodau'n cofio, mae cynllun gwella wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor sy'n ymgorffori argymhellion i adeiladu ar ein swyddogaeth Sgriwtini a'i chryfhau ymhellach o fewn diwylliant parhaus. Mae strwythur symlach a mwy hyblyg yn un o'n 5 thema gwella allweddol gyda'r nod o sicrhau strwythur wedi'i gynllunio'n dda lle gall "ffurf ddilyn y swyddogaeth" er mwyn gefnogi Sgriwtini i gael canlyniadau gwell. Felly, rydym wedi adolygu cylch gorchwyl ein 3 phanel sgriwtini ac wedi lleihau nifer y cyfarfodydd panel ffurfiol i greu capasiti Aelodau i gwblhau mwy o waith maes yn Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>2.2 Wedi'u hatodi, i'w cymeradwyo, mae dogfennau cylch gorchwyl diwygiedig pob un o'r panelau sgriwtini fel a ganlyn:<br><br>i. Panel Sgriwtini Adnoddau – **Atodiad 1**<br>ii. Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol – **Atodiad 2**<br>iii. Panel Sgriwtini Addysg – **Atodiad 3**<br><br>**3. GRŴP LLYWIO'R GYMRAEG A CHYDRADDOLDEB**<br>3.1 Mae hwn yn grŵp newydd a gyfarfu gyntaf ym mis Mai 2025 ac mae'n cymryd lle Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg pan ddiwygiwyd ei gylch gorchwyl i gynnwys y maes cydraddoldeb.<br>3.2 Gofynnir i'r ddau Bwyllgor Sgriwtini enwebu un Aelod i wasanaethu ar Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb. Mae cylch gorchwyl y Grŵp Llywio ynghlwm (**Atodiad 4**) er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y broses dewis. |

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn. |

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn. |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| **Atodiad 1** – sgop a chylch gorchwyl y Panel Sgriwtini Adnoddau<br>**Atodiad 2** – sgop a chylch gorchwyl y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol<br>**Atodiad 3** – sgop a chylch gorchwyl y Panel Sgriwtini Addysg<br>**Atodiad 4** – cylch gorchwyl Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**CYLCH GORCHWYL A DULL GWEITHREDU**

**PANEL SGRIWTINI ADNODDAU**

# RHAN 1 - CEFNDIR A CHYD-DESTUN

## Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni mae angen sicrwydd ar Aelodau fod y Cyngor yn mynd i wneud y defnydd gorau o adnoddau sy'n prinhau, yn enwedig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol…"* [1]

*"Sut allwn ni ychwanegu gwerth?"* yw'r cwestiwn allweddol i'w ofyn mewn perthynas â sgriwtini ariannol a "sut allwn ni ddangos fod gwerth yn cael ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y materion canlynol:

- Y broses o osod y gyllideb ynddo'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg galwadau sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn llawer iawn mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau fod proses sgriwtini briodol yn rhan o'r gwaith o gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny penderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd, gall Sgriwtini effeithiol:

- Herio'n effeithiol
- Dal y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

## Ychwanegu Gwerth[2]

Mae sawl ffurf ar sgriwtini ariannol, ond mae pedwar maes sylfaenol lle gall trosolwg effeithiol gan aelodau heblaw aelodau'r Pwyllgor Gwaith ychwanegu gwerth:

1. **Adolygu sut y caiff adnoddau eu dyrannu** - monitro sut y cânt eu defnyddio ac archwilio eu heffaith. Mae hyn yn ymwneud â dilyn drwodd o ddatblygu a chynllunio cyllideb hyd at ei gwireddu, a chadw llygaid ar y gyllideb honno yn ystod y flwyddyn. Mae'n cysylltu â'r ffordd y mae sgriwtini yn dewis a blaenoriaethu ei waith
2. **Adolygu'r modd y mae cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau'n cyd-blethu -** i ba raddau mae cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau yn cyd-blethu â rheolaeth a pherfformiad ariannol. Mae angen i sgriwtini 'brif ffrydio' dealltwriaeth o faterion ariannol a chyflawni sgriwtini sydd yn strategol, yn hytrach na sgriwtini fesul llinell.
3. **Profi ac amlygu p'un a yw'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn effeithiol -** profi ac amlygu p'un a yw'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni ei

---

[1] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. Hefyd, Raising the stakes - financial scrutiny in challenging times. A guide for Welsh local authorities (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)

[2] Financial Scrutiny Practice Guide (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg a'r Ganolfan Llywodraethu a Chraffu Mehefin 2020)

flaenoriaethau a dangos p'un a yw'n sicrhau gwerth am arian, cydraddoldeb a gwerth cymdeithasol.

4. **Herio, trwy graffu, rheolaeth y Pwyllgor Gwaith o gyllid y Cyngor a darparu safbwynt gwahanol ar heriau -** Mae gan sgriwtini rôl a ddiffiniwyd yn eglur ac mae'n cyfrannu rhywbeth unigryw o ran sut mae'n cyflawni ei waith.

**Craffu ar Adnoddau**

Mae adnoddau'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at yr arian, y staff a'r isadeiledd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau. Maent yn cynnwys:

- **Ffynonellau ariannu** - yn bennaf o'r Dreth Gyngor, trethi busnes a grantiau gan lywodraeth ganolog. Daw incwm ychwanegol o ffioedd a thaliadau lleol
- **Gwasanaethau allweddol** - gofal cymdeithasol, addysg, tai, cynnal a chadw ffyrdd, rheoli gwastraff, cynllunio, trwyddedu, canolfannau hamdden a gwasanaethau eraill
- **Adnoddau a chyfleusterau** – mae gan yr awdurdod bortffolio o asedau a chyfleusterau.

Mae'r diffiniad ehangach hwn yn darparu cyfle i'r Panel Sgriwtini archwilio materion yn gysylltiedig ag adnoddau sydd tu hwnt i gyllid yr Awdurdod Lleol.

**Ein Trefniadau Lleol**

Mae craffu ar y broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan osod y sylfaen ar gyfer proses well, fwy strategol sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses honno wedi caniatáu llwybr mwy systematig mewn perthynas â sgriwtini ariannol, ac mae'n elfen hanfodol o reolaeth ariannol a llywodraethiant cadarn.

Mae'r gwaith sgriwtini a gyflawnwyd gan y cyn Banel Sgriwtini Cyllid[3] yn ystod y Weinyddiaeth ddiwethaf wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol hefyd o ran ein trefniadau sgriwtini ariannol, trwy:

- Ddatblygu model o ganolbwyntio ar grŵp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gwaith tîm.

## RHAN II - CYFRIFOLDEBAU A CHWMPAS Y PANEL

**CYFRIFOLDEBAU:**

Bydd y Panel Sgriwtini Adnoddau yn gweithredu gyda'r amcanion allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion ariannol gan ganolbwyntio ar grŵp llai er mwyn cynyddu ymwneud Aelodau, datblygu lefel o arbenigedd, annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth ynglŷn â risgiau ariannol y Cyngor a'i berfformiad ariannol, fel sail i lywio rhaglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau lle ar raglen cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol er mwyn sicrhau fod materion trawsnewidiol a strategol yn cael eu craffu
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau sydd ag arbenigedd a pherchnogaeth er mwyn arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[3] Sefydlwyd y Panel Sgriwtini Cyllid yn yr Haf 2017 fel is banel o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

**Cwmpas**

| Pwnc | Rhaglen waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Cynefino** | Cynefino aelodau'r Panel | 4 Gorffennaf 2022 |
| **Monitro gwariant Refeniw a Chyfalaf yn chwarterol** | Craffu ar wariant yn erbyn proffil y gyllideb | Chwarterol |
| **Cyllideb y flwyddyn i ddod** | Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol i'r Cyngor er mwyn llywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Gorffennaf → Medi |
| | Cyllideb ddrafft - manylion a phroses y setliad ariannol | |
| | Trosolwg o'r sefyllfa mewn perthynas ag unrhyw arbedion | Hydref → Tachwedd |
| | Craffu ar risgiau'n gysylltiedig â chynigion y gyllideb | |
| | Craffu ar y cynigion o ran pa mor gyraeddadwy ydynt | |
| | Craffu ar lefel y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf | |
| **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Craffu ar yr egwyddorion a'r rhagdybiaethau | Medi |
| **Meysydd Gwasanaeth** | Craffu ar bwysau mewn meysydd gwasanaeth unigol | I'w amserlennu o fewn cylch blynyddol y gyllideb |
| **Rheoli Dyledion** | Craffu ar berfformiad rheoli dyledion (gan gynnwys cyfraddau casglu incwm) | I'w gadarnhau |
| **Ffioedd a Thaliadau** | Craffu ar ffioedd a thaliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod | I'w gadarnhau |
| **Premiwm ar Ail Gartrefi** | Craffu ar yr egwyddorion, rhagdybiaethau ac argymhellion | Tachwedd / Rhagfyr (i'w gadarnhau) |
| **Cynllun Busnes y CRT** | Craffu ar yr egwyddorion a'r rhagdybiaethau | Ionawr / Chwefror |
| **Balansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor** | Cwestiynu a chraffu | Mehefin / Gorffennaf |
| **Gwerth am Arian / Gwerth Cymdeithasol trwy Gaffael** | | i'w gadarnhau |

## RHAN III - TREFNIADAU LLYWODRAETHU

**1. Llywodraethiant / Aelodaeth y Panel**

- Sefydlwyd y panelau sgriwtini er mwyn cyflawni ffrydiau gwaith ar ran y rhiant bwyllgorau sgriwtini ac maent, fel y cyfryw, yn weithgorau nad oes ganddynt rym i wneud penderfyniadau
- Bydd aelodaeth o'r Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[4].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau etholedig** - 3 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini, yn seiliedig ar fformiwla balans gwleidyddol y Cyngor
ii. **Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau** - fel sylwedydd ac ni fydd ganddo bleidlais
iii. **Swyddogion** - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Sgriwtini

Bydd gwaith y Panel yn gofyn am bresenoldeb Aelodau Etholedig eraill o bryd i'w gilydd (e.e. aelodau'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill.

**2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

- **Amlder Cyfarfodydd** - sefydlwyd y panel fel panel sefydlog er mwyn ystyried yr ystod o faterion ariannol llywodraeth leol a grynhoir yn y tabl uchod. Bydd y panel yn cyfarfod yn rheolaidd felly, yn unol â manylebau ac amserlenni prosesau cyllidebol y Cyngor, fel a ganlyn:
  i. Gorffennaf - Monitro cyllideb Chwarter 4 / alldro blynyddol
  ii. Medi - Monitro cyllideb Chwarter 1
  iii. Tachwedd - Monitro cyllideb Chwarter 2
  iv. Rhagfyr - Setliad Drafft Cychwynnol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd
  v. Ionawr - Cynigion Cychwynnol y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd
  vi. Chwefror - Cynigion Cyfalaf / Cynigion Refeniw Drafft Terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd / Monitro cyllideb Chwarter 3.

- **Cworwm** - ni fydd hyn yn berthnasol i'r panel.

**3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bydd y panel yn cael ei gynnal ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini yn casglu a dosbarthu unrhyw bapurau er mwyn paratoi ar gyfer pob cyfarfod a byddant hefyd yn darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod.

- **Trefniadau adrodd** - bydd aelodau'r panel yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Fel rhan o'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol, bydd y Panel yn cyhoeddi datganiad blynyddol yn crynhoi'r gwerth a ychwanegwyd trwy ei waith craffu.

[11/07/2025, 23/07/2025, 19/08/2025 a 09/09/2025]

[4] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli balans gwleidyddol mewn awdurdodau lleol

**CYLCH GORCHWYL A DULL GWEITHREDU**

**PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

## RHAN 1 - CEFNDIR A CHYD-DESTUN

**Craffu ar Wasanaethau Cymdeithasol**

Mae cadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl holl bwysig ac mae'n rhaid i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol â'i gilydd yn y cyswllt hwn. Mae'r maes hwn wedi enyn cryn sylw gan y cyhoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil esiamplau proffil uchel lle methodd Awdurdodau Lleol a phartneriaid ddiogelu unigolion agored i niwed, gan arwain at ganlyniadau trasig.

Wrth adrodd ar ganlyniadau arolygu gwael, mae arolygiaethau[1] gofal yn aml yn cyfeirio at arferion craffu gwael ymysg methiannau eraill mewn systemau. Mae sicrhau craffu ystyrlon ar bolisïau, yn ogystal â chefnogaeth a / neu wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn unigolion agored i niwed, yn elfen allweddol felly o rôl arweinyddiaeth Aelodau Etholedig Sgriwtini.

Mae sicrhau fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu craffu'n ystyrlon a chadarn yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth Aelodau Sgriwtini ac mae'n golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau fod proses sgriwtini briodol yn rhan o'r gwaith o gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny penderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar unigolion agored i niwed yn ein cymunedau lleol neu yn y system ofal. O'r herwydd, gall Sgriwtini effeithiol:

- Herio'n effeithiol
- Dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau cadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Ein Trefniadau Lleol**

Mae craffu ar Wasanaethau Cymdeithasol wedi esblygu a datblygu ers sefydlu'r panel blaenorol, sef y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol[2]. Roedd rôl y Panel yn canolbwyntio ar fonitro a chraffu ar gynnydd a datblygiad yn erbyn y rhaglen wella Gwasanaethau Cymdeithasol a pherfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol; darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ynglŷn â chynnydd digonol ac amserol / perfformiad lleol. Roedd y gwaith craffu a gyflawnwyd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol yn ystod y Weinyddiaeth ddiwethaf yn ddatblygiad cadarnhaol a chafodd effaith ar berfformiad a thaith wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol:

- Datblygu model o ganolbwyntio ar grŵp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gwaith tîm.

[1] Arolygiaeth Gofal Cymru; Comisiwn Ansawdd Gofal (Lloegr)

[2] Sefydlwyd y Panel Gwella Gwasanaethau Plant ym mis Mehefin 2017 ac ehangwyd cwmpas y panel er mwyn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ym mis Mehefin 2019

## RHAN II - CYFRIFOLDEBAU A CHWMPAS Y PANEL

**CYFRIFOLDEBAU**
Datblygu craffu ar Wasanaethau Cymdeithasol gan Aelodau yw'r **cam naturiol nesaf** ac mae'n sicrhau cwmpas ehangach i'w waith, gyda'r manteision allweddol a ganlyn:

- Datblygu model o weithio ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn cynyddu ymwneud Aelodau, datblygu lefel o arbenigedd pynciol ac annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Cryfhau capasiti Aelodau i herio perfformiad trwy wella ansawdd gwybodaeth a data am wasanaethau
- Fforwm i drafod gwybodaeth ynglŷn â risgiau Gwasanaeth fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau sydd ag arbenigedd a pherchnogaeth er mwyn arwain trafodaethau ynglŷn â materion Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Yr hyn mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wleidyddol a chraffu**

Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth o'r ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Rôl y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yw:

1. Monitro a chraffu mewn ffordd ystyrlon a chadarn:
    - Cynnydd a datblygiad yn erbyn rhaglenni datblygu Gwasanaeth
    - Perfformiad meintiol ac ansoddol Gwasanaethau Cymdeithasol
2. Sicrhau fod lleisiau plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu clywed wrth ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau
3. Darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ynglŷn â'r elfennau canlynol:
    - Cynnydd digonol, amserol wrth gyflawni rhaglenni datblygu Gwasanaeth
    - Perfformiad meintiol ac ansoddol gwasanaethau cymorth a gofal i blant, pobl ifanc ac oedolion

**CWMPAS**

| Pwnc | Ffocws y rhaglen waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Craffu effeithiol** | **Cynefino** aelodau'r Panel - ar ffurf gweithdy. | Gorffennaf 2022 ac yn ystod cyfarfodydd y Panel. |
| Sgiliau | **Sgiliau -** darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu er mwyn sicrhau | Darparu trwy gydol y flwyddyn ddinesig |

| Pwnc | Ffocws y rhaglen waith | Amserlen |
|---|---|---|
| Hunanwerthuso | eglurder o ran y rôl a gwybodaeth bynciol er mwyn caniatáu craffu effeithiol e.e. AGC, arweinwyr meysydd gwasanaeth, partneriaid. | gan sicrhau aliniad â gwaith craffu'r Panel |
| | **Hunanwerthuso** - Aelodau'n beirniadu eu perfformiad eu hunain er mwyn caniatáu iddynt adolygu, myfyrio a dysgu. Amcanion:<br>i. Pwyso a Mesur<br>ii. Adolygu, arfarnu a myfyrio<br>iii. Sefydlu sylfaen ar gyfer y cyfnod nesaf<br>iv. Cadarnhau perchnogaeth Aelodau. | Blynyddol - i'w benderfynu gan aelodau'r Panel<br><br>Tachwedd 2026 - trosolwg o waith Panel 2022 - 2026 |
| **Gwaith Maes** | Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinyddion i gyfarfod â staff o dimau amrywiol er mwyn clywed profiadau uniongyrchol staff. | I'w gadarnhau - trafodaeth ag aelodau'r Panel |
| **Thema 1: Cynllun Strategol Oed Gyfeillgar** | Cynllun Strategol Oed Gyfeillgar - golwg fanwl ar y cyfeiriad strategol Cyngor gyfan | Adborth gwaith maes - Haulfryn Llangristiolus |
| **Thema 2: Cyfiawnder Ieuenctid** | Sicrhau fod y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2025/26 ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd yn cael ei gyflawni'n effeithiol. | Gorffennaf 2025 - Mehefin 2026 |
| **Thema 3: Darpariaeth Gofal ar gyfer Pobl Hŷn** | Gweledigaeth, nodau ac amcanion Ynys Môn ar gyfer darpariaeth gofal ar gyfer pobl hŷn<br>Diweddariad ar Dai Gofal Ychwanegol | Adborth gwaith maes – i'w gadarnhau |
| **Thema 4: Llesiant Meddwl Môn** | • Diweddariad ar ailstrwythuro'r tîm a gwreiddio ymarfer<br>• Nodi themâu ac ymyrraeth gynnar | Adborth gwaith maes - Tîm Cefnogi Cymunedol Llesiant Meddwl Môn |
| **Thema 5: Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu)** | Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu) - golwg fanwl ar y model gofal Darpariaeth ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu - i ba raddau mae'r ddarpariaeth yn diwallu'r angen | Adborth gwaith maes - Tîm Anableddau Dysgu (Plant ac Oedolion) |
| **Thema 6: Ynys Môn sy'n Wybodus am Drawma** | Ynys Môn sy'n Wybodus am Drawma - y daith hyd yma a datblygiadau ar y gorwel | Adborth gwaith maes – i'w gadarnhau |
| **Llais y Defnyddiwr Gwasanaeth** | Craffu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i glywed llais plant, pobl ifanc ac oedolion fel rhan annatod o'r ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ynys Môn<br>Defnyddio astudiaethau achos, fideos a phortreadau geiriol (adlewyrchu'r arfer dda bresennol a fabwysiadwyd gan y Panel Rhiant Corfforaethol). | Cyflwyno trwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith craffu'r Panel - ystyried pan adroddir ar gynnydd o dan bob thema (darparu enghreifftiau) |

# RHAN III - TREFNIADAU LLYWODRAETHU

**1. Llywodraethiant / Aelodaeth y Panel**

- Sefydlwyd y panelau sgriwtini er mwyn cyflawni ffrydiau gwaith ar ran y rhiant bwyllgorau sgriwtini ac maent, fel y cyfryw, yn weithgorau nad oes ganddynt rym i wneud penderfyniadau

- Bydd aelodaeth o'r Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[3].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau etholedig** - 4 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini, yn seiliedig ar fformiwla balans gwleidyddol y Cyngor
ii. **Aelodau Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd)** - fel sylwedyddion, ni fydd ganddynt bleidlais
iii. **Swyddogion** - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y panel yn gofyn am bresenoldeb Aelodau Etholedig eraill o bryd i'w gilydd (e.e. aelodau'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill.

**2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

- **Amlder cyfarfodydd** - sefydlwyd y panel fel panel sefydlog er mwyn sicrhau atebolrwydd, trosolwg a chraffu ar wasanaethau cymdeithasol ar Ynys Môn, fel y mae'r tabl uchod yn ei grynhoi. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn unol â'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau cynnydd ar graffu ar wasanaethau cymdeithasol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel a ganlyn:
  i. 2 gyfarfod hybrid o'r Panel ym mhob blwyddyn ddinesig - Mai a Thachwedd
  ii. gwaith maes thematig gan grwpiau bach mewn darpariaethau gwasanaethau cymdeithasol lleol rhwng bob cyfarfod o'r Panel er mwyn craffu a monitro'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Gwaith maes i ganolbwyntio ar themâu blaenoriaeth allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023/2028

- **Cworwm** - ni fydd hyn yn berthnasol i'r panel.

**3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bydd y panel yn cael ei gynnal ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini yn casglu a dosbarthu unrhyw bapurau er mwyn paratoi ar gyfer pob cyfarfod a byddant hefyd yn darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod.

- **Trefniadau adrodd** - bydd aelodau'r panel yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[14/07/2025, 21/08/2025 a 09/09/2025]

[3] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli balans gwleidyddol mewn awdurdodau lleol

**CYLCH GORCHWYL A DULL GWEITHREDU**

**PANEL SGRIWTINI ADDYSG**

## RHAN 1 - CEFNDIR A CHYD-DESTUN

**Craffu ar Addysg**
Mae atebolrwydd addysg a chraffu'r gyfundrefn addysg ehangach gan Aelodau'n rôl holl bwysig ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gydweithio'n effeithiol yn y cyswllt hwn. Yn dilyn newid yn y ffordd mae ysgolion yn gweithredu, a chyda rhagor o ddiwygio ar y gorwel[1], mae perygl y gallai olygu fod llai o eglurder a dealltwriaeth ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am beth, a phwy sydd â throsolwg o gyfundrefnau addysg lleol. Mae canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru yn ffynhonnell newydd y gellir cyfeirio atynt. Mae'r Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd[2] yn amlinellu'r hyn mae'r Llywodraeth yn ei ddisgwyl gan yr holl randdeiliaid wrth gyfrannu at wella ysgolion mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'n amserol, felly, ailystyried y cwestiwn o beth yw rôl Aelodau Etholedig yn y system hon. Mae angen trosolwg ac arweinyddiaeth leol eglur a strwythuredig er mwyn sicrhau fod rhwystrau a gwrthbwysau'n bodoli tu allan i systemau llywodraethu'r ysgolion eu hunain mewn perthynas â sut mae'r system addysg yn gyffredinol yn gweithredu ar lefel Sirol. Mae gan y Panel Sgriwtini Addysg gyfraniad pwysig i'w wneud yn y cyswllt hwn. Mae sicrhau fod addysg yn cael ei graffu'n ystyrlon a chadarn yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth Aelodau Sgriwtini. Dylai craffu effeithiol ychwanegu gwerth, sicrhau gwelliannau a chynyddu atebolrwydd a thryloywder.

Mae craffu ar addysg yn ymwneud â dal yr Aelod Portffolio a darparwyr gwasanaethau addysg i gyfrif, ac ar lefel strategol mae'n golygu:

- Edrych / craffu ar sut mae'r cydrannau'n gweithio gyda'i gilydd e.e. sut mae partneriaid lleol yn cydlynu gweithgareddau
- Bod yr holl ymdrechion yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau dysgwyr.

Mae sgriwtini addysg yn llawer iawn mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau fod proses sgriwtini briodol yn rhan o'r gwaith o gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny penderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Fel y cyfryw, gall Sgriwtini effeithiol:

- Herio'n effeithiol
- Dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau cadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

[1] Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn creu fframwaith deddfwriaethol er mwyn gwella'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol o safbwynt cynllunio a darparu;
Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 - yn sefydlu'r Cwricwlwm i Gymru mewn cyfraith.
[2] Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd. Llywodraeth Cymru, Ionawr 2021

**Ein Trefniadau Lleol**
Mae craffu ar ysgolion wedi esblygu a datblygu ers sefydlu'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn 2012[3]. Hyd at 2022 roedd rôl y Panel yn canolbwyntio ar wella perfformiad yr holl ysgolion trwy herio perfformiad pob ysgol yn gadarn; annog ysgolion i rannu arfer dda ymysg ei gilydd, gan ystyried gwersi a ddysgwyd a phrofiad ysgolion unigol; gwella gwybodaeth Aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn; gan dystiolaethu fod Aelodau Etholedig yn monitro perfformiad ysgolion.
Bu'r gwaith craffu a gyflawnwyd gan y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion blaenorol yn ystod y ddegawd ddiwethaf yn ddatblygiad cadarnhaol, a chafodd effaith ar berfformiad ysgolion trwy:

- Ddatblygu model o ganolbwyntio ar grŵp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gwaith tîm.

Mae ein Siarter Sgriwtini Addysg lleol (yn **Atodiad 1**) yn darparu crynodeb cynhwysfawr sy'n dwyn ynghyd ymrwymiad y Cyngor a gwerthoedd sy'n sail i graffu ar faterion o bwysigrwydd strategol i'r Awdurdod Lleol gan Aelodau Etholedig.

## RHAN II - CYFRIFOLDEBAU A CHWMPAS Y PANEL

**CYFRIFOLDEBAU**
Datblygu sgriwtini addysg gan Aelodau yw'r cam naturiol nesaf ac mae'n sicrhau cwmpas ehangach i'w waith, gyda'r manteision allweddol a ganlyn:

- Datblygu model o weithio ym maes Addysg sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn cynyddu ymwneud Aelodau, datblygu lefel o arbenigedd pynciol ac annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Cryfhau ymhellach gallu Aelodau i herio ansawdd ac effaith y gwasanaethau a ddarperir i ysgolion
- Fforwm i drafod gwybodaeth ynglŷn â risgiau Gwasanaeth fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau sydd ag arbenigedd a pherchnogaeth er mwyn arwain trafodaethau ynglŷn â materion Addysg yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**Yr hyn mae Estyn yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wleidyddol a chraffu**

Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth o'r ddarpariaeth addysg er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol:

1. **Safonau - herio perfformiad er mwyn codi safonau yn gysylltiedig â chanlyniadau**
2. **Ansawdd ac effeithiolrwydd - dealltwriaeth o ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth addysg**
3. **Arweinyddiaeth - dealltwriaeth o effeithiolrwydd arweinyddiaeth addysg ar bob lefel yn y Sir.**

[3] Sefydlwyd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion ym mis Tachwedd 2012 gan y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden blaenorol. Roedd yn deillio o argymhellion gan Estyn ar y pryd ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ar Ynys Môn.

**CWMPAS**

| Pwnc | Ffocws y rhaglen waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Craffu effeithiol** | **Cynefino** aelodau'r Panel - ar ffurf gweithdy. Nod: Ymgyfarwyddo Aelodau â'r cwmpas a chylch gorchwyl diwygiedig | 24 Mehefin 2025 |
| Sgiliau | **Sgiliau -** darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu er mwyn sicrhau eglurder o ran y rôl a gwybodaeth bynciol er mwyn caniatáu craffu effeithiol e.e. Estyn, arweinwyr meysydd gwasanaeth. | Darparu trwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith craffu'r Panel |
| Hunanwerthuso | **Hunanwerthuso** - Aelodau'n beirniadu eu perfformiad eu hunain er mwyn caniatáu iddynt adolygu, myfyrio a dysgu. Amcanion:<br>i. Pwyso a Mesur<br>ii. Adolygu, arfarnu a myfyrio<br>iii. Sefydlu sylfaen ar gyfer y cyfnod nesaf<br>iv. Cadarnhau perchnogaeth Aelodau. | Blynyddol - i'w benderfynu gan aelodau'r Panel |
| **Thema 1: Pontio** | **Pontio Effeithiol** - parodrwydd i ddysgu<br>• Gwella dealltwriaeth aelodau o bwysigrwydd pontio dysgwyr yn effeithiol<br>• Nodi sut mae ysgolion yn cael eu cefnogi er mwyn sicrhau pontio effeithiol | Cyflwyno'r thema mewn cyfarfod o'r Panel → 24 Mehefin 2025<br><br>Gwaith maes mewn 3 ysgol → Medi 2025<br><br>Hunanwerthuso / myfyrio mewn cyfarfod Panel → 24 Medi 2025 |
| **Thema 2: Presenoldeb** | **Presenoldeb Da mewn Ysgolion**<br>• Codi ymwybyddiaeth o'r strategaeth "gwella presenoldeb ysgol"<br>• Pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth a roddi i ysgolion er mwyn eu cynorthwyo i gynyddu presenoldeb | Cyflwyno'r thema mewn cyfarfod o'r Panel → 24 Medi 2025<br><br>Gwaith maes mewn 3 ysgol → manylion i'w cadarnhau<br><br>Hunanwerthuso / myfyrio mewn cyfarfod Panel → 17 Rhagfyr 2025 |
| **Thema 3: Cwricwlwm i Gymru** | **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 -**<br>Cwricwlwm i Gymru → addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith | Cyflwyno'r thema mewn cyfarfod o'r Panel → 17 Rhagfyr 2025 |

| Pwnc | Ffocws y rhaglen waith | Amserlen |
|---|---|---|
| | • Gwella dealltwriaeth aelodau o Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru<br><br>• Adolygu pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth a roddir i ysgolion er mwyn datblygu addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith o fewn y cwricwlwm a pha gyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr? | Gwaith maes mewn 3 ysgol → manylion i'w cadarnhau<br><br>Hunanwerthuso / myfyrio mewn cyfarfod Panel → 19 Mawrth 2026 |
| **Thema 4: Hunanwella mewn Ysgolion** | **Taith hunanwella ysgolion** -<br><br>• Gwella dealltwriaeth aelodau o ysgolion sy'n hunanwella, a pha gam o'u taith hunanwella mae ysgolion Ynys Môn wedi'i gyrraedd<br><br>• Ystyried pa mor effeithiol mae'r Gwasanaeth Dysgu'n cefnogi ysgolion er mwyn bod yn ysgolion sy'n hunanwella. | Cyflwyno'r thema mewn cyfarfod o'r Panel → 19 Mawrth 2026<br><br>Gwaith maes mewn 3 ysgol → manylion i'w cadarnhau<br><br>Hunanwerthuso / myfyrio mewn cyfarfod Panel → Mehefin 2026 |
| **Thema 5: Yr Iaith Gymraeg** | **Y Gymraeg mewn Addysg (ffocws 10 mlynedd)**<br><br>• Craffu / monitro'r gwaith o gyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Ynys Môn<br>• Monitro perfformiad lleol yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn flynyddol | Cyflwyno'r thema mewn cyfarfod o'r Panel → Mehefin 2026<br><br>Gwaith maes mewn 3 ysgol → manylion i'w cadarnhau<br><br>Hunanwerthuso / myfyrio mewn cyfarfod Panel → Medi 2026 |
| **Thema 6: Cynhwysiant** | Gwella dealltwriaeth Aelodau o "gynhwysiant mewn ysgolion"<br><br>Ystyried pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth i ysgolion yn y maes gwasanaeth Cynhwysiant | Cyflwyno'r thema mewn cyfarfod o'r Panel → Medi 2026<br><br>Gwaith maes mewn 3 ysgol → manylion i'w cadarnhau<br><br>Hunanwerthuso / myfyrio mewn |

| Pwnc | Ffocws y rhaglen waith | Amserlen |
|---|---|---|
| | | cyfarfod Panel → Rhagfyr 2026 |
| **Thema 7: Effaith Tlodi** | **Lleihau effaith tlodi ar gyflawniad -**<br>• Codi ymwybyddiaeth Aelodau o'r disgwyliad ar ysgolion i ystyried sut maen nhw'n lleihau effaith tlodi ar ddysgwyr<br>• Ystyried pa mor effeithiol mae ysgolion yn lleihau'r effaith hwn, a'r cymorth a roddir iddynt i'w cynorthwyo i gyflawni hyn. | Cyflwyno'r thema mewn cyfarfod o'r Panel → Rhagfyr 2026<br><br>Gwaith maes mewn 3 ysgol → manylion i'w cadarnhau<br><br>Hunanwerthuso / myfyrio mewn cyfarfod Panel → Mawrth 2027 |
| **Thema 8: NEET** | **Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant (NEET)**<br>• Gwella dealltwriaeth aelodau o NEET<br>• Ystyried effeithiolrwydd cefnogaeth yr Awdurdod Lleol a chefnogaeth ysgolion | Cyflwyno'r thema mewn cyfarfod o'r Panel → Mawrth 2027<br><br>Gwaith maes mewn 3 ysgol → manylion i'w cadarnhau<br><br>Hunanwerthuso / myfyrio mewn cyfarfod Panel → yn dilyn yr etholiadau awdurdod lleol yn 2027 |
| **Llais y Dysgwr:** | Mae pob maes ffocws yn sicrhau fod Aelodau'n ystyried profiad y dysgwr trwy lais y dysgwr. Mae hyn yn rhan annatod o'r ddarpariaeth addysg ar Ynys Môn ac mae'n llinyn arian sy'n rhedeg drwy waith y Panel. | I'w gadarnhau - trafodaeth ag aelodau'r Panel |

## RHAN III - TREFNIADAU LLYWODRAETHU

**1. Llywodraethiant / Aelodaeth y Panel**

- Sefydlwyd y panelau sgriwtini er mwyn cyflawni ffrydiau gwaith ar ran y rhiant bwyllgorau sgriwtini ac maent, fel y cyfryw, yn weithgorau nad oes ganddynt rym i wneud penderfyniadau

- Bydd aelodaeth o'r Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[4].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

[4] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli balans gwleidyddol mewn awdurdodau lleol

i. **Aelodau etholedig** - 4 Aelod Etholedig o'r ddau bwyllgor sgriwtini, yn seiliedig ar fformiwla balans gwleidyddol y Cyngor
ii. **Aelod Portffolio ar gyfer Addysg** - fel sylwedydd ac ni fydd ganddo bleidlais
iii. **Swyddogion** - Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y Panel yn gofyn am bresenoldeb Aelodau Etholedig eraill o bryd i'w gilydd (e.e. aelodau'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill.

**2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

- **Amlder cyfarfodydd** - sefydlwyd y panel fel panel sefydlog er mwyn sicrhau atebolrwydd, trosolwg a chraffu ar y gyfundrefn addysg ar Ynys Môn, fel y mae'r tabl uchod yn ei grynhoi. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn unol â'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau cynnydd ar sgriwtini addysg i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel a ganlyn:
    i. 4 cyfarfod hybrid o'r Panel yn ystod pob blwyddyn ddinesig - Mehefin, Medi, Rhagfyr a Mawrth
    ii. Gwaith maes thematig gan grwpiau bach mewn ysgolion rhwng bob cyfarfod o'r Panel er mwyn craffu a monitro'r effaith ar ddysgwyr. Gwaith maes i ganolbwyntio ar themâu blaenoriaeth allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023/2028

- **Cworwm** - ni fydd hyn yn berthnasol i'r panel.

**3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bydd y panel yn cael ei gynnal ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini yn casglu a dosbarthu unrhyw bapurau er mwyn paratoi ar gyfer pob cyfarfod a byddant hefyd yn darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod.

- **Trefniadau adrodd** - bydd aelodau'r panel yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

[10/07/2025, 21/08/2025 a 26/08/2025]

# *CYFLWYNIAD I DROSOLWG A SGRIWTINI*

**“Effective public scrutiny committees can be a powerful vehicle for change. It can improve the delivery of services; it can connect the public to decision-makers and politicians; it can improve efficiency…..”**

**[Canolfan Llywodraethiant a Sgriwtini 2008]**

## BETH YDY SGRIWTINI?

Ffocus ar faterion o gonsyrn go iawn i ddinasydion Ynys Môn.

Herio’r sawl yn gwneud penderfyniadau i wella perfformiad.

Darparu gwiriadau a chydbwysedd ar gyfer penderfyniadau’r Pwyllgor Gwaith.

## 4 EGWYDDOR ALLWEDDOL

1. Darparu her “ffrind beirniadol” i’r Pwyllgor Gwaith.
2. Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion.
3. Cael ei arwain a’i berchnogi gan Aelodau’r Cyngor.
4. Cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau.

## YR HYN NAD YW SGRIWTINI ……

Cymryd rhan mewn mân faterion neu faterion sy’n ymwneud ag unigolion.

Ymdrin â chwynion neu faterion rheoleiddio e.e. ceisiadau cynllunio neu drwyddedu.

Ymdrin â materion sy’n parhau i fod yn destun achos llys.

Gwleidyddol.

Lle i ddadlau.

Ystyried materion sy’n destun adolygiad gan sefydliad arall o fewn yr Awdurdod Lleol neu’r tu allan iddo.

Cyfle i ofyn cwestiynau i swyddogion ar eitemau nad ydynt ar y rhaglen.

Negyddol.

Lle i edrych ar bethau’n hamddenol.

## GWAITH PWYLLGORAU SGRIWTINI

Gall Bwyllgorau Sgriwtini:

1. Adolygu a chraffu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith, Deilyddion Portffolio unigol neu Swyddogion y Cyngor.
2. Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion.
3. Adolygu unrhyw faterion wedi'u cyfeirio drwy'r rheolau "Galw i Mewn" a pharatoi adroddiadau a gwneud argymhellion yn ôl yr angen.
4. Adolygu a chraffu ar berfformiad gwasanaethau.
5. Ymateb i fudiadau allanol ble y mae eu gweithredu'n cael effaith ar drigolion yr Ynys.
6. Ei gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac uwch reolwyr fynychu cyfarfodydd a chael eu herio ynghylch materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.
7. Gwahodd ymgynghorwyr arbenigol, Aelodau eraill y Cyngor, rhanddeiliaid neu aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan mewn adolygiadau Sgriwtini.
8. Cyfeirio materion i'r Panelau Sgriwtini (sy'n cynnwys grwpiau llai o Aelodau).


## STRWYTHUR Y CYNGOR

Mae gan y Cyngor gyfanswm o 35 Cynghorydd. Mae 9 Cynghorydd yn ffurfio'r Pwyllgor Gwaith, y prif gorff gwneud penderfyniadau. Mae gan y Cyngor hefyd nifer o Bwyllgorau i ymdrin â materion fel Trwyddedu, Cynllunio a materion mewnol fel Llywodraethiant a materion Staffio.

Rheolau sy'n llywodraethu'r ffordd mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini'n gweithredu gan gynnwys y cyd-destun deddfwriaethol i'w gweld yn Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae 2 Bwyllgor Trosolwg a Sgriwtini sy'n cynnwys y mwyafrif o'n Haelodau Etholedig.

## SGRIWTINI FEL RHAN O BROSES GWNEUD PENDERFYNIADAU'R CYNGOR



Mae'r ddogfen hon ar gael yn ddwyieithog
This document is available bilingually

# SIARTER CRAFFU ADDYSG
# *EDUCATION SCRUTINY CHARTER*

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Mynegai o’r Cynnwys:



| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyd-destun Polisi Cenedlaethol | 3 |
| 2. Cefndir a Chyd-destun Lleol | 4 |
| 3. Ein Gweledigaeth ar gyfer Sgriwtini Effeithiol | 5 |
| 4. Darparu Sgriwtini Addysg Effeithiol | 6 |
| Nodyn o Eglurhad | 12 |

# SIARTER CRAFFU
# *SCRUTINY CHARTER*

Mae'r Siarter hon yn grynodeb trosfwaol sy'n dwyn ynghyd ymrwymiad a gwerthoedd y Cyngor sy'n sail i waith sgriwtini Aelodau Etholedig ar faterion o bwysigrwydd strategol i'r Awdurdod Lleol.

## 1. CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL

**1.1 Craffu**

Mae pwyllgorau sgriwtini'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru'n gweithredu. Yn ogystal â sefydlu Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl pennaf yw dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rôl wrth ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Llywodraethiant a Chraffu Cyhoeddus (CfGS)[1] yn arddel pedair egwyddor allweddol i gefnogi gwaith sgriwtini effeithiol gan Aelodau:

i. darparu her "cyfaill beirniadol" i reini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau
ii. sicrhau y clywir llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau
iii. "llywodraethwyr annibynnol eu meddwl" sy'n arwain y broses Sgriwtini ac yn cymryd perchnogaeth ohoni
iv. Yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

1.2 **Y Gymraeg**

Mae yna sylfaen bolisi sylweddol yn genedlaethol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg y dylai gwneuthurwyr penderfyniadau a'r rhai sy'n gyfrifol am eu dwyn i gyfrif fod yn ymwybodol ohoni. Yn bennaf oll yw strategaeth iaith Llywodraeth Cymru sef Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Mae'r gyfundrefn addysg yn allweddol i greu a meithrin siaradwyr Cymraeg y dyfodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Gweler dyletswydd ar bob awdurdod lleol[2] i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) sy'n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, darparu a datblygu addysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol.


---

[1] Canllaw Sgriwtini Da: Canolfan Llywodraethiant a Chraffu (2004)
[2] Deddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2013

# 2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN LLEOL

## 2.1 Craffu

Mae ein strwythur Sgriwtini lleol yn cynnwys dau Bwyllgor a thri phanel Sgriwtini:




Darperir rôl / pwrpas Sgriwtini yn ein trefniadau llywodraethiant yn **Atodiad 1.**

## 2.2 Y Gymraeg

Ochr yn ochr â'n CSCA[3], mae gennym nifer o ymrwymiadau polisi i ddatblygu'r Gymraeg trwy'r gyfundrefn addysg ac yn ehangach. Mae'r Gymraeg ac addysg yn feysydd blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor: 2023-2028. Nod ein strategaeth hybu'r Gymraeg a'n Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yw datblygu defnydd o'r iaith yn lleol drwy'r gyfundrefn addysg drwyddi draw - blynyddoedd cynnar, addysg statudol, addysg ôl-16, addysg uwch / bellach a dysgu gydol oes.

[3] Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032

# 3. EIN GWELEDIGAETH AR GYFER SGRIWTINI EFFEITHIOL

Ein gweledigaeth ar gyfer craffu'n effeithiol:

**Gweledigaeth**
Mae Sgriwtini ar Ynys Môn yn anelu at sicrhau gwell ganlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau a hefyd ychwanegu at effeithiolrwydd y Cyngor drwy helpu i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tryloyw, cynhwysol, atebol a chost effeithiol.


**Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Sgriwtini ar Ynys Môn**

- Mae Sgriwtini'n creu awyrgylch o gyd-ymddiriedaeth, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cymunedau lleol ar Ynys Môn
- Mae Aelodau Sgriwtini yn anwleidyddol yn y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi ac herio
- Mae gweithgaredd Sgriwtini'n ehangu yn uniongyrchol y sylfaen dystiolaeth ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno rhaglenni trawsnewid oherwydd mae'n rhoi syniad o'r modd y mae cymunedau lleol yn debygol o deimlo am y cynigion
- Mae Aelodau Sgriwtini yn helpu i sicrhau y cymerir ymagwedd strategol, hir dymor pan mae bwriad i ail ystyried strategaethau sylweddol gan wasanaethau a hynny drwy gynnig her adeiladol wrth roi prawf ar ragdybiaethau, edrych ar risgiau ac herio sut y mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.

**Ein Gwerthoedd**
**Sgriwtini ar Ynys Môn …..**

- mae'n edrych ymlaen ac at allan ac yn rhagweithiol (yn hytrach na mewnol ac ymatebol)
- rôl wedi'i diffinio'n glir ac sy'n cael ei gwerthfawrogi yn nhrefniadau llywodraethiant a gwella'r Cyngor
- yn anwleidyddol ac yn cynnwys amrediad eang o ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau gan gynnwys rhai gan bartneriaid strategol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd

- arwain gan Aelodau Etholedig sydd â’r cyfleon hyfforddi a datblygu maent eu hangen i ymgymryd â’u rôl yn effeithiol
- derbyn cefnogaeth effeithiol gan Dîm Arwain y Cyngor sy’n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer Sgriwtini o ansawdd uchel ac ar gael yn amserol a chyson
- cymryd i ystyriaeth bryderon a fynegir ar lefel ward mewn modd nad yw’n blwyfol wrth reoli ei flaen raglen waith
- cael ei gynllunio’n dda, ei gadeirio’n effeithol ac yn gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau ar gael iddynt
- yn cael ei gydnabod gan y Pwyllgor Gwaith a’r Tîm Arwain fel dull pwysig o eiddo’r Cyngor ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a chynnwys dinasyddion yn well mewn perthynas â llywodraethiant
- yn datblygu ymddiriedaeth a pherthynas gadarnhaol gydag amrywiaeth eang o randdeiliad mewnol ac allanol.




# 4. DARPARU SGRIWTINI ADDYSG EFFEITHIOL

**Craffu Addysg**
Mae atebolrwydd addysg a chraffu gan Aelodau ar y system addysg ehangach yn rôl hollbwysig ac yn un sy’n gofyn i’r Awdurdod Lleol a’i bartneriaid gydweithio’n effeithiol. Yn dilyn newidiadau i sut mae ysgolion yn gweithredu a gyda diwygio parhaus , mae eglurder a dealltwriaeth ynghylch atebolrwydd yn y system ysgolion yn hanfodol.

Addysg yw un o’n 6 amcan strategol allweddol[4] - sicrhau darpariaeth addysg effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau’r dyfodol. Gwelwyd Cyngor Sir Ynys Môn felly’n ail ystyried y

[4] Cynllun y Cyngor 2023-28

cwestiwn beth yw rôl Aelodau Etholedig yn y system hon. Mae angen goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth leol glir a strwythuredig er mwyn sicrhau gwiriadau a chydbwysedd y tu allan i systemau llywodraethiant ysgolion unigol ynghylch sut mae'r system addysg gyffredinol yn gweithredu ar lefel Sirol. I'r perwyl hwn, mae gan y Panel Sgriwtini Addysg gyfraniad pwysig i'w wneud. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn ar addysg yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth Aelodau Sgriwtini. Mae craffu da'n golygu ychwanegu gwerth, a chryfhau gwelliant, atebolrwydd a thryloywder.

Mae craffu ar addysg felly'n ymwneud hefyd â dwyn darparwyr lleol i gyfrif, ac ar lefel strategol:

- Edrych / craffu ar sut mae'r holl gydrannau'n cydweithio ee sut mae partneriaid lleol yn cydlynu gweithgareddau
- Bod pob ymdrech yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau dysgwyr .

Mae craffu ar addysg yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses graffu briodol yn rhan o'r gwaith cynllunio, gweithredu a gwaith dilynol ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar ddysgwyr, trethdalwyr a chymunedau.

**Beth rydym yn disgwyl ei weld**
'Rydym yn disgwyl gweld arweinyddiaeth wleidyddol a sgriwtini effeithiol gan Aelodau sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ddarpariaeth addysg i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol:

- **Safonau** – herio perfformiad er mwyn codi safonau ynghylch canlyniadau

- **Ansawdd ac effeithiolrwydd** – dealltwriaeth o ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth addysg

- **Arweinyddiaeth** – dealltwriaeth o effeithiolrwydd arweinyddiaeth addysg ar bob lefel yn y Sir.

**Creu'r amodau:**
Mae'r camau gweithredu a'r ymddygiadau canlynol yn ceisio sicrhau bod ein Haelodau'n craffu'n effeithiol ar faterion addysg:

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Amodau ar gyfer Sgriwtini Addysg Effeithiol – Ymrwymiad Aelodau Etholedig

→ **glynu at y weledigaeth ehangach ar gyfer y Gwasanaeth Addysg**

→ **bod yn wybodus am y pwnc ac ymchwilio cyn Craffu**

→ **gofyn cwestiyniau agored, treiddgar ac atodol**

→ **edrych mewn manylder ar bynciau**

→ **ystyriaeth fanwl mewn Pwyllgor**

→ **bod yn barchus pan yn craffu**

→ **meithrin perthynas barchus a chynhyrchiol rhwng Aelodau Etholedig a swyddogion**

→ **agos at ysgolion, clust ar y ddaear i goladu tystiolaeth anffurfiol**

→ **sicrhau digon o gyfle ar gyfer sgyrsiau agored ar lefel Panel**


→ **gyda blaen raglenni gwaith Pwyllgor a Phanel er mwyn gosod cyfeiriad**

→ **parchu dewis iaith cyd-Aelodau gyda'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg**

→ **cefnogi ymrwymiad y Cyngor trwy ei bolisi iaith Gymraeg a chynlluniau eraill i ddatblygu defnydd o'r iaith**

**Addewid Aelodau Etholedig**
Mae ein Haelodau Etholedig wedi ymrwymo i:


**i.** gynnal sgriwtini effeithiol drwy:




**ii.** ddatblygu gwybodaeth gefndirol, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc Ynys Môn drwy:

- ✓ ddatblygu ymhellach ar ein model gwaith sy'n ffocysu ar "grŵp" llai – yn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o "arbenigedd", annog presenoldeb da a gwaith tîm. Hefyd, fel fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion addysg yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio -

Mae'r ddogfen hon ar gael yn ddwyieithog
This document is available bilingually





- ✓ meithrin perthynas o ymddiriedaeth a galluogi adeiladu tîm ymhlith aelodau'r Panel er mwyn annog awydd i ddatblygu gwaith Sgriwtini ymhellach

- ✓ ddarparu cyfleon cyfnodol yn y calendr ar gyfer hunan-werthuso gan Aelodau i alluogi myfyrio a dysgu

- ✓ gymryd rhan lawn ac ymgysylltu mewn cyfleon gwaith maes I ysgolion fel modd o gadw mewn cyswllt â'r heriau bob dydd sy'n wynebu Penaethiaid a staff ein hysgolion.  Hyn i gynnwys adrodd yn ôl i aelodau'r Panel ar faterion allweddol a risgiau.

**iii.** ddatblygu strategaeth gwestiynu effeithiol fel sylfaen ar gyfer yr holl weithgaredd Sgriwtini:

## Cwestiwn da?




Rhoddir arweiniad pellach ar gwestiynu effeithiol yn **Atodiad 2.**

**iv.** gadeirio effeithiol o’n cyfarfodydd Panel a Phwyllgor drwy:

Clirdeb - argymhellion

Crynhoi

Glynu wrth y pwnc

Gwahaniaethu rhwng cwestiynau a sylwadau

Cynhwysol a pharchus

Cyfranogiad gan yr holl Aelodau

## NODYN O EGLURHAD:

Lluniwyd y Siarter Craffu Addysg gan swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod 2022/23 gan gynnwys mewnbwn gan Aelodau Etholedig sef:

i. Panel Sgriwtini Addysg
ii. Rhiant Bwyllgorau Sgriwtini sef y Pwyllgor Sgriwitini Corfforaethol a’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
iii. Fforwm Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Sgriwtini
iv. Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol
v. Tîm Arwain.

**Atodiad 2**

# Cwestiwn Da?
# Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini Addysg

| |
|---|
| **Eich cyflwyniad ffeithiol byr:** mae hyn yn sichrau bod pawb yn canolbwyntio ar y mater allweddol. Defnyddiwch deitl unrhyw un yr ydych yn cyfeirio ato er eglurder |
| **Eich cwestiwn(au) agored:** mae'r cwestiynau hyn yn cychwyn gyda → Pwy, Beth, Pryd, Lle, Sut, Pam ac ni ellir ateb y rhain gydag ateb ie neu na. Dim problem i ddefnyddio dau gwestiwn byr cysylltiedig |
| **Eich cwestiwn(au) treiddgar:** yn arferol mae'r cwestiynau hyn yn cychwyn gydag ymadroddion fel "O ystyried eich bod wedi datgan bod ……." Neu "Allwch chi fod yn fwy penodol ynghylch…." "Allwch chi esbonio pam felly…." "Beth arall sydd ei angen?" "Er mwyn i mi ddeall……" "Disgrifiwch sut y bydd hyn yn edrych mewn 3 blynedd…." "Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud?" |
| **Eich cwestiwn(au) crynhoi caeedig:** gallwch chi neu'r Cadeirydd (os byddwch yn methu'r cyfle) ofyn y cwestiynau hyn ar ddiwedd eich cyfraniad. Eu nod yw sicrhau bod ateb yn gwbl glir a'u nod yw sicrhau ateb "ie" neu "na". Mae croeso i chi ddefnyddio 2 gwestiwn byr caeedig ond cysylltiedig. Mae'r cwestiynau hyn yn cychwyn gyda "Felly rydych yn dweud…..";  "Rydych felly'n teimlo fod…..";  "Felly rydych yn glir fod….";  "Eich targed felly ydy…." |

**ATODIAD 4**

# Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb: Cylch gorchwyl

**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2025 (f.1)

# Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb: Cylch gorchwyl

**Hanes adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1 | 05/2025 | Cylch gorchwyl gwreiddiol |

**Dyddiad adolygu nesaf**
Adolygir y ddogfen yn: Mai 2026
Cynhelir yr adolygiad gan: Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb

**Mwy o wybodaeth**
Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei chynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Tîm Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 752 520
E-bost: Polisi@ynysmon.llyw.cymru

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**
This document is also available in English

## Cefndir

1. Grŵp llywio'r Gymraeg a chydraddoldeb sy'n arwain yn strategol ar fonitro a hyrwyddo'r iaith a chydraddoldeb ym mhob agwedd o waith Cyngor Sir Ynys Môn. Mae holl waith y grŵp yn seiliedig ar flaenoriaethau strategol, gwerthoedd, ac amcanion cyffredinol cynllun y cyngor, yn ogystal â phrif egwyddorion deddfwriaethol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

2. Yn unol â Mesur y Gymraeg 2011:
   - ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a
   - dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

3. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gwaherddir pob math o wahaniaethu mewn perthynas â'r naw nodwedd gwarchodedig isod, a elwir hefyd yn grwpiau a warchodir:
   - Oed
   - Anabledd
   - Ailbennu rhywedd
   - Priodas a phartneriaeth sifil
   - Beichiogrwydd a mamolaeth
   - Hil
   - Crefydd neu gred
   - Rhyw
   - Cyfeiriadedd rhywiol

4. Yng Nghymru, dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd penodol ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau gwell canlyniadau i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Cyfrifoldebau

5. Hyrwyddo'r Gymraeg a chydraddoldeb ym mhob agwedd o waith y cyngor a monitro cynnydd yn erbyn amcanion sefydliadol a deddfwriaethol.

6. Y Gymraeg:

   - Cyfrannu at adolygiadau o'r polisi iaith Gymraeg a monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwnnw a gofynion safonau'r Gymraeg.

   - Cyfrannu at adroddiadau blynyddol ar weithredu safonau'r Gymraeg.

   - Cyfrannu at, a derbyn adroddiadau cynnydd ar, gynlluniau gweithredu strategaeth hybu'r Gymraeg.

   - Derbyn adroddiadau cynnydd ar hyfforddiant iaith Gymraeg a sgiliau iaith y gweithlu.

   - Derbyn adroddiadau cynnydd ar waith Fforwm Iaith Ynys Môn.

- Cyfrannu at ymatebion i ymgynghoriadau'n ymwneud â'r Gymraeg.

7. Cydraddoldeb

    - Cyfrannu ar adolygiadau o'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

    - Cyfrannu at adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb.

    - Cyfrannu at, a derbyn adroddiadau cynnydd ar, gynlluniau gweithredu y cynllun cydraddoldeb strategol.

8. Cyfeirio unrhyw risgiau o ran cydymffurfio â gofynion statudol i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio) i'w craffu'n ymhellach.

9. Arwain ar weithredu cylch parhaol o welliannau gyda chefnogaeth swyddogion a gwasanaethau penodol.

10. Cyfrannu at adolygiadau o brif gynlluniau strategol a chynllun y cyngor lle bo'n briodol chynnig arweiniad ar flaenoriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg a chydraddoldeb yn y cynlluniau hynny.

11. Argymell unrhyw wariant ym maes y Gymraeg a chydraddoldeb ar lefel corfforaethol megis comisiynu hapwiriadau, buddsoddi mewn meddalwedd technoleg gwybodaeth (gan gynnwys systemau mewnol), ymgyrchoedd, ac ati.

## Aelodaeth

12. Bydd aelodaeth y grŵp fel a ganlyn:

    - Aelod portffolio addysg a'r Gymraeg
    - Aelod portffolio cydraddoldeb
    - Cynrychiolwyr o'r ddau bwyllgor sgriwtini (cadeiryddion i enwebu un aelod o'r naill bwyllgor)
    - Prif Weithredwr (cadeirydd)
    - Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid
    - Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (is-gadeirydd)
    - Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
    - Swyddog Polisi
    - Rheolwr Gwasanaeth Cyfieithu
    - Rheolwr Gwasanaethau Digidol
    - Rheolwr Cydlyniant Cymunedol ac Ailsefydlu
    - Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol

13. Gwahoddir swyddogion eraill i gyflwyno gwybodaeth am feysydd penodol yn achlysurol.

## Llywodraethiant ac atebolrwydd

14. Bydd y grŵp yn cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn.

15. Cyfeirir unrhyw argymhellion y bydd angen cymeradwyaeth cyn eu gweithredu i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Adroddir yn flynyddol ar gynnydd gweithgareddau'r grŵp i'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

16. Adroddir yn flynyddol ar weithgarwch y grŵp i'r Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio).

This page is intentionally left blank

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **17 Medi, 2025** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Jeff Evans** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portfolio | Rôl |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2025/26

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2025/26
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Amherthnasol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2025/26 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

### 7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2025

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2025/26 |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2025 → EBRILL, 2026
## [Fersiwn dyddiedig 05/09/25]

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2025 ( 20/05/2025)** | **Mai, 2025 (20/05/2025)** |
| Ethol Cadeirydd: 2025/26 | Ethol Cadeirydd: 2025/26 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 | Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 |
| | |
| **Mai, 2025 (21/05/2025)-Cyfarfod Ychwanegol** | |
| Canlyniadau'r Ymgysylltiad ar y Ddarpariaeth Addysg Ôl-16 | |
| Adeilad Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| | |
| **Mehefin, 2025 (17/06/2025) – Ch4** | **Mehefin, 2025 (12/06/2025) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2024/25 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2024/25<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2025/26 | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| Atgyweirio To Adeilad Canolfan Addysg y Bont: Gwersi a Ddysgwyd | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2025 (15/07/2025) - Gwasanaethau Brys** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Heddlu Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Medi, 2025 (17/09/2025) – Ch1** | **Medi, 2025 (16/09/2025) – Cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2025/26 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | Prifysgol Bangor |
| Aelodaeth y Panelau Sgriwtini | Aelodaeth y Panelau Sgriwtini |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Hydref, 2025 (15/10/2025)** | **Hydref, 2025 (14/10/2025) – Trosedd ac Anrhefn** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2024/25 | Menter Môn |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar y Cynnig i Adleoli Dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i Adeilad Ysgol Newydd ar gyfer Dysgwyr 11-18 Oed | |
| Moderneiddio Cymunedau Dysgu: Achos Busnes (eitem eithriedig) | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Tachwedd, 2025 (18/11/2025) - Ch2** | **Tachwedd, 2025 (13/11/2025) – Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2025/26 | Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2024/25 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Sefydlu Cyllideb 2026/27 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Cynllun Strategol Digidol Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | **Tachwedd, 2025 (26/11/2025) – Iechyd** |
| | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru-mesur cynnydd |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (bore)** | **Ionawr, 2026 (20/01/2026)** |
| | Diogelu Corfforaethol |
| | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2024/25<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (prynhawn)** | |
| Moderneiddio Cymunedau Dysgu - Adroddiad Gwrthwynebu a dod i Benderfyniad Terfynol am Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |
| **Chwefror, 2026 (18/02/2026) – Cyllideb 2026/27** | **Chwefror, 2026 (12/02/2026) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2026/27 – refeniw a chyfalaf | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (i'w gadarnhau) |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Mawrth, 2026 (18/03/2026) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (17/03/2026)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2025/26 | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2026/2056 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2024/25 |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ebrill, 2026 (22/04/2026)** | **Ebrill, 2026 (21/04/2026)-Taclo Tlodi** |
| | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| | Medrwn Môn |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |



**Eitemau i’w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau’r Gymraeg | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| Cynllun Strategol Man-ddaliadau 2025-2030 | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| Adroddiad Cynnydd Ch4: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Ardoll Twristiaeth Lleol i Gymru |
| Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch | Digartrefedd Ynys Môn |
| Cynllun Strategol Tuag at Sero Net | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn]- Mesur Cynnydd] (Mehefin / Gorffennaf 2026) |
| | |